dynodiant *eg. denotation, indication, designation; name, title; distinction, discrimination; characteristic; expression, look; meaning, connotation.*
c. 1785-90.

dynodol *a. denoting, denotative, indicative, expressive; characteristic; discriminating.*
1795.

dynodus, gw. **dinodus**.

dynoed, gw. **dyn + oed**.

dynoethaf: dynoethi, dynoethiad, gw. **dinoethaf: dinoethi, dinoethiad**.

dynofydd *eg. ll. -ion. anthropologist.*
1926.

dynofyddiaeth *eb. anthropology.*
1863.

dynofyddol *a. anthropological.*
1863.

dynofyddwr *eg. ll. -wyr. anthropologist.*
1921.

dynol, dyniol *a. a hefyd fel eg. ll. -ion.*

(a) *human, mortal; humane, humanitarian; secular.*
13g.

(b) *manly.*
1595.

Fel e. human being.
1823.

Cfn.: dyn(i)ol anian: human nature, humanity. 1346.

d. genedl: *mankind, the human race, humanity. 1346.*

d. ryw, gw. *dynolryw*.

cenedl dd. = **d. genedl.**

Am had dynol, (yr) hil dd., natur dd., gw. had, hil, natur.

dynolaeth, gw. **dynoliaeth**.

dynolaf: dynoli *bg.a. to humanize, civilize, render humane; grow manlike.*

1795.

dynoldeb, dynioldeb *eg. manhood, manliness, human nature; humanity, human kindness.*

Diw. 16g.

dynolder *eg. ll. -au. manhood, humanity.*

1858.

dynoldod, dynioldod *eg. humanity.*

c. 1400.

dynoleg *eb. humanism.*

20g.

dynoleiddiaf: dynoleiddio *ba. to humanize.*

1887.

dynolgar *a. humane; humanitarian, philanthropic.*

1818.

dynoliaeth, dyniol(i)aeth, dynolaeth *eg. b. humanity, mankind; human nature; manhood, manliness; humaneness, human kindness.*

13g.

dynoliaethaf: dynoliaethu *ba. to make human, humanize.*

1711.

dynolion, ff. l., gw. **dynol**.

dynolrwydd *eg. humanity, humaneness; manliness.*

1757.

dynolryw, dynol-ryw *eb. g. ac e. tf. a hefyd fel a.*

(a) mankind, humanity.

1567.

(b) human nature, humanity.

1630.

Fel a. human.

1721.

dynos *e. ll. puny men, frail humanity.*

1603.

dynpwy, gw. **dympwy**.

dynsawd, dynsawdd *eg. ll. dynsodoedd, dynsod(d)ion, -au.*

(a) human being, person; the bodily form of a man or woman, the outer man.

1595.

(b) person (in grammar).

1595.

Cfn.: cymryd dynsawd (rhywun): to accept or respect the person of (any one). 1595.

dynserch *eg. (God's) love of mankind; philanthropy.*

1620.

dynsiwn, gw. **dwinsiwn**.

dynsodach *e. tf. persons of no account, low or common people, rabble.*

1858.

dynsodaf, dynsoddaf: dynsodi, dynsoddi *ba. to personify.*
1795.

dynsodiad, dynsoddiad *eg. ll. -au. personification, prosopopœia.*
1795.

dynsodiant, dynsoddiant *eg. personification.*
1795.

dynsodlun *eg. ll. -iau. prosopopœia.*
1595.

dynsodol, dynsoddol *a. personal.*
1795.

dynsodwedd *eb. ll. -au. prosopopœia, personification.*
1595.

dynsoddaf: dynsoddi, dynsoddiad, &c., gw. dynsodaf: dynsodi, dynsodiad, &c.

dynwardadwy *a.bfl. imitable.*
1775.

dynwardaf, (danwardaf): dynward, (danward) *ba. a hefyd y be. fel eg. ll. -ion, -au.*

(a) *to imitate, emulate; copy, reproduce; counterfeit, make pretence of.*
14g.

(b) *to imitate, ape, mimic, mock, deride.*
c. 1400.

Fel e. an imitating, imitation.
15-16g.

Cfn.: Dynward yr Eos: Mock Nightingale (title of a melody). 1794.

dynwardedig, dynwardig, &c. *a.bfl. imitated, copied.*
1604-7.

dynwardiad *eg. ll. -au. the act of imitating, &c., an aping, a mimicking, imitation; sham, pretence, counterfeit; (slavish) copy.*
1606.

dynwardig, gw. dynwardedig.

dynwardol *a. worthy of imitation; imitating, emulating; imitative, apish; counterfeit, artificial.*
1604-7.

dynwardwr *eg. ll. -wyr. imitator; mimic, actor, impersonator; counterfeiter; one who mocks or derides.*
1604-7.

dynwardyddiaeth *eb. the art of acting or of imitating, mimicry.*
1722.

dynwardtgar *a. imitative, mimic.*
1775.

dynweddiad *eg. ll. -au. person (in gram.).*
1808.

dynweddiadol *a. personal (of pronoun).*

1808.

dynweddiant *eg. anthropomorphism.*

1860.

dynyddaf: dynyddu, gw. *dy*⁻¹ + *nyddu*.

dynyn *eg. b.*

(a) *little man, manikin, dwarf, midget, puny or insignificant fellow; child, baby.*

1604-7.

(b) *maiden, damsel, lady-love.*

14g.

Gw. *hefyd dynan.*

dyobrysiat: dyobrysiu, gw. **dyofrysiat: dyofrysiu**.

dyodorraf: dyodor *ba. to cut, split asunder, cleave.*

14g.

dyodrefn, gw. *dodrefn*.

dyodrigaf, -iaf: dyodrigu, -io *ba. to wait, delay, tarry, loiter.*

Dchr. 14g.

dyodwff, deodwff, doodwff *eg. advance in price of cattle that fell due every season until they attained full value; augmentation, increase, increment.*

13g.

Am arian dyodwff, gw. *arian*.

dyoddef, dyoddefaf: dyoddef, &c., gw. **dioddef, dioddefaf: dioddef**, &c.

dyoddeuaf: dyoddau, dyoddeuo *ba. to intend, make for, seek; send.*

12g.

dyofaeth, gw. *dofaeth*.

dyofag, gw. *dofag*.

dyofid *a. pitiable, poor, paltry.*

Dchr. 14g.

dyofod, gw. *dofod*.

dyofrysiat: dyofrysiu *bg. to hurry, hasten, speed.*

14g.

dyofyddaf*: dyofod *bg. to happen, befall, come.*

13g.

dyoganaf: dyogan *ba. to predict, prognosticate.*

14g.

dyogladdaf: dyogladd *ba. to strike against, beat, buffet.*

Dchr. 14g.

dyogloddiaf: dyogloddio *ba. to beat against.*

13g.

dyogyfarchaf: dyogyfarch *ba. to greet, ask.*

14g.

dyoluchaf: dyoluch *ba. to respect, honour.*

Dchr. 14g.

dyoralwaf: dyoralw *bg.* to call aloud, cry, yell.
14g.

dyorddenaf: dyordden(u) *ba.* to please, satisfy; attract.
c. 1400.

dyoresgynnaf: dyoresgyn *ba.* to conquer, subdue, subjugate.
14g.

dyorfyddaf, dyorwyf: dyorfod *bg.a.* to conquer, subdue, triumph, win the day.
12–13g.

dyorgrawd *bg.* (3 un. pres. myn.) *he* (she, &c.) remains, continues, survives.
c. 1400.

dyorllwyddaf: dyorllwydd, -io *bg.a.* (to cause) to prosper or thrive, (cause) to flourish.
Dchr. 14g.

dyorllygaf: dyorllwyn *ba.* to attack, rush upon, assail; pursue.
Dchr. 14g.

dyosel *eg.* wile, plot, a waylaying, ambush.
13g.

dyostyngaf: dyostwng *ba.* to humble, vanquish.
Dchr. 14g.

dypartaf: dyparto, gw. departiaf: departio.

dyphd(d)ong, gw. dipton.

dyrain, gw. dyreif: dyrain.

dyraith, gw. dyrraith².

dyraniad *eg.* ll. -au. a dividing or partitioning; a sharing or apportioning; division, partition.
1795.

dyrannaf: dyrannu *ba.* to divide, share, distribute; give, grant, bestow.
Dchr. 14g.

dyrathaf: dyrathu *ba.* to rub hard, scour, burnish.
1632.

dyrathiad *eg.* a rubbing, chafing, friction.
1795.

dyrawr *eg.b.* a hefyd fel *a.*

(*a*) *vehemence, passion, zest, ardour, eagerness.*
c. 1400.

(*b*) *a wanton.*
1722.

Fel a. vehement, passionate, ardent, eager; fierce, violent, bitter; wanton, lascivious.
Dchr. 14g.

dyrcha, gw. dyrchafaf: dyrchafu.

dyrchaf¹, derchaf: dyrchu, derchu *bg.a.* to lift up, raise; rise.

15g.*Amr.:* drychu. **1567.****dyrchaf**², gw. dyrchafaf: dyrchafu.**dyrchafad**, gw. dyrchafiad.**dyrchafadwy, derchafadwy** *a.bfl.* worthy of being exalted, laudable, excellent; exalted, lofty.**1567.****dyrchafael**, gw. dyrchafaf: dyrchafu.**dyrchafaf, derchafaf, drychafaf: dyrchafu, derchafu, dyrchaf(a)el, dyrcha(f), &c.** *bg.a.***1.** (fel *bg.*) (a) to rise, ascend; become elated or proud; grow, thrive, prosper.**13g.**

(b) to be added as an augmentation; rise, increase (in value).

13g.**2.** (fel *ba.*) (a) to lift up, raise, hoist; elevate, promote; exalt, extol.**13g.**

(b) to increase (the value of), augment.

13g.Fel *e.* **1.** (yn y ff. *dyrchaf(a)el, drychaf(a)el, &c.*, ll. *-ion, -au, &c.*) (a) increase, rise, augmentation.**14g.**

(b) the Ascension of Christ, Ascension Day; elevation (of the soul).

1551.**2.** assault; blow.**13g.***Cfn.:* **dyrchafel yr Aberth:** to elevate the Host. **14g.****d. calon (dy galon, ein calonnau, &c.):** (i) to lift up one's heart; gladden one's heart. **1588.** (ii) to exalt oneself (with pride). **1346.****d. corff Crist = d. yr Aberth.** **15g.****dyrchafu cri:** to raise a cry. **1830.****Dyrchafel y Groes:** the Exaltation of the Cross. **1567.****d. dwylo:** to lift up one's hands (in prayer, thanksgiving, &c.). **13g.****d. hwyl(iau):** to hoist the sail(s), set sail. **14g.****d. llais:** to lift up one's voice, cry out loudly. **1588.****d. llaw:** (i) to lift one's hand. **14g.** (ii) to lift up one's hand in hostility (against), deal a blow (at), strike. **14g.** (iii) to lift up one's hand in taking an oath. **1588.****d. llef:** to lift or set up a cry, one's voice, &c. *Dchr.* **15g.****d. morddwyd:** to show respect (lit. to raise the thigh). *c.* **1400.****d. pen:** (i) to lift up one's head, regain courage or spirit. **14-15g.** (ii) to lift up the head of (a person) (in bibl.), bring out from prison, restore to position of dignity. **1588.****d. pont:** (i) to erect a bridge. **14g.** (ii) to raise or draw up a bridge. **14g.****d. sawdl:** to raise or lift the heel against. **1567.****d. tystion:** to appoint (lit. to raise) witnesses. **13g.**Am *Difiau* (y) *Dyrchafael, dydd (Iau)* (y) *D., dygwyl y D., offrwm d., ysgwyddog y d., gw. dan yr elf. flaenaf.***dyrchafaid, drychafaid** *a. magnificent, sumptuous.**c.* **1585.****dyrchafedig, drychafedig, &c.** *a.bfl.*

(a) raised or lifted up (according to the various senses of the verb), raised, elevated, lofty, noble, sublime; exalted; elated, proud, haughty.

13g.

(b) acute (of accent); accented (of rhyme).

1560–87.

Am *acen ddyrchafedig, corfan crych d.*, gw. **acen, corfan**.
Gw. hefyd **acan, acen**.

dyrchafedigaeth, drychafedigaeth *eb. elevation; translation (of saint)*.
16g.

dyrchafedigrwydd *eg. exaltedness, loftiness, eminence, sublimity*.
1773.

dyrchafiad, drychafiad, dyrchafad, &c. *eg. ll. dyrchafiadau (dr.), a'r ff. dyrchafad hefyd fel a. a raising or lifting up, rise, elevation; promotion, advancement; exaltation, glory; translation (of saint), ascension (of Christ); elevation (in astronomy); surge, swell (of waters)*.

14–15g.

Fel *a. elevated, lofty, exalted; that may be raised or lowered (e.g. portcullis, bed)*.

Dchr. 14g.

Cfn.: dyrchafiad arall i Gymro: facet. another promotion for a Welshman. Ar lafar.

d. yr (o'r) Aberth: *the Elevation of the Host. Dchr. 17g.*

d. yr aflladen (o'r afllad) = d. yr Aberth. 1618.

d. calon: *elation of heart, pride. 1588.*

D. Crist: *The Ascension of Christ. 1567.*

d. y Groes (Grog) sanctaidd: *Exaltation of the Holy Cross, 14th Sept. 1670.*

d. eglwysig: *ecclesiastical promotion or preferment. 1710.*

d. ysbrydol = d. eglwysig. 1710.

dyrchafiaeth, drychafiaeth, &c. *eb.g. ll. -au. advancement, promotion; preferment (ecclesiastical); exaltation, dignity*.
16g.

dyrchafiawdr, drychafiawdr *eg. ll. -iodron. uplifter, exalter, advancer, promoter, supporter, upholder*.

Dchr. 15g.

dyrchafiol, gw. dyrchafol.

dyrchafnod *eg. ll. -au. sharp (in mus.)*.
1838.

dyrchafol, dyrchafiol *a. elevating, uplifting, edifying; exalted, glorified; acute (of accent)*.

1567.

Am *acen ddyrchafol*, gw. **acen**.

dyrchafus *a. elevated or uplifted (of the spirit)*.
1691.

dyrchafwr, dyrchafydd, &c. *eg. ll. -wyr, -yddion. one who lifts up, raiser, exalter, promoter, advancer; liberator (bibl.)*.

1588.

dyrchedig *a.bfl. elevated, raised; lofty, sublime*.
1820.

dyrdanc, dyrdang *eg. wonder, astonishment, marvel*.
c. 1400.

dyre¹ *eg. a hefyd fel a. sexual desire (often of stallion or mare), lust, wantonness, lechery*.

15–16g.

Fel *a. wanton, lustful, lascivious*.

Dchr. 14g.

dyre² 2 un. grch. y f. *deuaf*, *dof*: *dyfod*, *dod* (er na pherthyn y ff. *dyre* mwy na *dabre* o ran tarddiad i'r f. hon). *come!*

1632.

Gw. hefyd *dere*.

dyreaf: **dyrain** *bg.a* a'r be. fel *eg*.

1. (a) *to run, hasten; return; rise, ascend; strive.*

13g.

(b) *to raise, lift up; lead, conduct; straighten.*

Dchr. 14g.

2. *to covet, lust, play the wanton, be or become lascivious; sprawl.*

1632.

Amr.: **d(y)rifo**. 1552.

Fel e. zest, ardour; excess, lasciviousness, wantonness; joy, exultation.

Dchr. 14g.

dyredaf*: **dyred** *bg.* (ond gan amlaf yn y ff. *dyred*, 2 un. grch.). *to come, draw near, approach.*

Dchr. 14g.

Gw. hefyd *tyrd*, *tyred*.

dyrgi, **dyrglawdd**, **dyrglwyf**, gw. **dyfrgi**, **dyfrglawdd**, **dyfrglwyf**.

dyri, **dyrif** *eb.* ll. *dyriau*, *dyrifau*. *song in free metre having regular syllabic accentuation and sometimes touches of 'cynghanedd', ballad, lay, lyric, verse.*

1591.

Am torri dyri, gw. **torraf**: **torri**.

dyriaf: **dyrio** *bg.* *to sing a song or ballad.*

1800.

dyriaidd, **dyrifaidd** *a.* *after the manner of a 'dyri' or song, lyrical.*

c. 1785–90.

dyrifaf: **dyrifo**, **dyrrif** *ba.*

(a) *to account, be worth (or of equal value to), deserve, gain.*

Dchr. 14g.

(b) *to count, number, measure.*

Diw. 15g.

d(y)rifiaf: **d(y)rifo**, gw. **dyreaf**: **dyrain**.

dyriol, **dyrifol** *a.* *pertaining to a 'dyri', free (of metre), lyrical.*

c. 1785–90.

dyriwr, **-ydd**, **dyrifwr**, **-ydd** *eg.* ll. *-wyr*, *-yddion*. *composer of poetry in the free metres (as opposed to 'cynghanedd'), composer of lays and ballads.*

1854.

dyrllid, **dyrllyd**, gw. **derllyddaf**: **derllyddu**.

dyrllÿdd, gw. **darllenydd**, **darllÿydd**.

dyrlyddaf: **dyrlyddu**, gw. **derllyddaf**: **derllyddu**.

dyrllys, gw. **derllyddaf**: **derllyddu**.

dyrnadwr *eg.* ll. *-wyr*. *thresher.*

1893.

dyrnaf: dyrnu *ba. to thresh, thrash; beat, drub, thump.*

13g.

Cfn.; **dyrnu ar:** *to attack or censure continually.* 16g.**d.'r iâr:** *to thrash the hen, a Shrovetide pastime pursued by blindfolded persons (armed with flails) who tried to strike a hen half-buried under the turf—this process was repeated until one of them succeeded in striking the hen, whereupon it became his prize.* 1688.**d. llorfaes:** *field-floor thrashing.* 1814.**d.'r twmpath(au):** *to orate and gesticulate with much noise and little sense (lit. to beat the mound(s)).* Ar lafar.

Am ffust ddyrnu, injan dd., llawr d., gw. ffust, injan, llawr.

dyrnaid *eg. (bach. un. dyrneidyn) ll. dyrneidiau. handful, little, few.*

13g.

Cfn.: **dyrnaid o saethau:** *sheaf or quiverful of arrows.* 15g.**dyrnawd,** gw. **dyrnod.****dyrnchwith** *a. left-handed.*

1604–7.

dyrndwn, gw. **dwrn + twn.****dyrdddol,** gw. **dryntol.****dyrneidiaf: dyrneidio** *ba. to grasp with the fist, take up in handfuls, lay hold of.*

1774.

dyrnfedaf: dyrnfedi, gw. **dwrnfedaf: dwrnfedi.****dyrnfedd** *eg. b. handbreadth, hand (in measuring height of horse); also fig. of the short span of human life.*

13g.

Cfn.: **dyrnfedd gorniog:** *a handbreadth with the thumb erect (or extended), measure of six inches (lit. horned handbreadth).* 18g.**d. foel:** *the ordinary handbreadth of four inches, hand (lit. the bare handbreadth).* 1722.**d. bica = d. gorniog** *(lit. pointed or spiked handbreadth).* 1722.**dyrnfeddaf: dyrnfeddu** *ba. to span.*

1588.

dyrnflaidd *eg. ll. -fleiddiau. ravenous wolf; a kind of club with spiked knob.*

15g.

dyrnfol, dyrnol *eg. ll. -au, dyrnfyl, dyrnwyl. glove, leather glove, gauntlet; mitten, hedging glove; muff.*

c. 1250.

Gw. hefyd dyrnolenbren.

dyrnfolwr *eg. ll. -wyr. glover.*

19g.

dyrngas, gw. **dwrn + cas**¹.**dyrngell,** hen org., gw. **dyrniell.****dyrngryf,** gw. **dwrn + cryf.****dyrnhwrdd** *eg. ll. -hyrddod. battering-ram.*

1852.

dyrniad¹ *eg. a threshing, a beating.*

1588.

dyrniad² *eg. ll. -iaid. thrasher, one who beats or batters.*
Dchr. 14g.

dyrniell *a. of yellow hilt.*
14g.

dyrnig *a. pugnacious, fierce.*
15g.

dyrnod *eg. b. ll. -(i)au, -ion.*

(a) *blow with the fist, box, cuff, buffet; heavy blow, stroke, thrust (of weapon, &c.); discharge of gun, &c.; stroke, stripe (of whip or scourge); stroke (of lightning, clock, &c.); a pounding or battering; swift attack; grievous wound, cut, gash; fig. blow, dire misfortune, calamity; stroke of death; sharp reproof or reprimand, (divine) visitation; stroke of eulogy, ? object of eulogy.*

13g.

(b) *prime of life, bloom (of one's vigour or vitality).*

1691.

Cfn.: dyrnod cleddyf: stroke of a sword; sword-wound. 1588.

d. cyllell: *slit or hack, sheep's earmark so called. Ar lafar.*

d. ffirewyll: *stroke of a whip, stripe, lash with a scourge. 1588.*

d. (y) gwynt: *the buffeting of the wind. 16g.*

d. (y) llaw: (i) *blow of the hand. 1588.* (ii) *part of the clenched hand or fist that strikes a blow.*
16g.

d. tafod: *stroke of the tongue, shattering or devastating remark. 1588.*

d. taran: *thunder-clap. 1595.*

ar (ag, o) un d.: *at a blow, at once. 14g.*

y pum dyrnod: *the five wounds (of Christ). 13g.*

yn nyrnod ei (ein, &c.) nerth: *in the full vigour or prime of life. 1691.*

dyrnodfa *eb. ll. -oedd, -fâu, -feydd. boxing match or bout.*
1770.

dyrnodiaf: dyrnodio *ba. to strike with the fists, deal blows to, buffet, box, thump, batter, knock, fig. punish or chastise (frequently).*
15-16g.

dyrnodiol *a. battering.*
1819.

Am hwrdd dyrnodiol, peiriant d., gw. hwrdd, peiriant.

dyrnodiwr *eg. ll. -wyr. one who beats or strikes with the fists, buffeter, boxer, pugilist.*
1771.

dyrnogyn *eg. ll. dyrnogiaid. perch.*
Ar lafar.

Gw. hefyd draenog.

dyrnol¹ *a. pertaining to the fist, fisty, pugilistic.*
1795.

dyrnol², *gw. dyrnfol.*

dyrnolenbren *eb. wooden glove used to take hold of furze when chopped for fodder.*
Ar lafar.

dyrntol, *gw. dryntol.*

dyrnwil, *gw. dyrnfol.*

dyrnwr *eg. ll. -wyr. thresher of corn (formerly with flail), thrasher, one who pounds*

or beats; thrashing machine.

15g.

Cfn.: y **dyrnwr mawr**: thrashing machine. Ar lafar.

d. tân = y **d. mawr**. Ar lafar.

dyrnydd *eg. ll. -ion. thresher; sea-fox.*

1794.

dyroddaf, dyrof: dyroddi, dyroi *ba. (wedi goroesi yn y 2 un. grch. dyro 'rho' a'r 3 pres. myn. dyry 'rhydd'). to give, donate, bestow, grant, make over, deliver (to), yield, produce; put, place.*

13g.

Gw. hefyd **rhoddaf: rhoddi**.

dyroddedig *a.bfl. given; devoted or addicted (to).*

c. 1300.

dyroddiad *eg. a giving or giving up, yielding, a giving over, delivery, tradition; gift, grant.*

1604–7.

dyrraf: dyrru *bg.a.*

(a) *to drive, force or compel (to go), push, thrust, send forth.*

14g.

(b) *to cause contention or strife, make mischief; rush.*

16g.

Cfn.: **dyrru allan**: to drive out, expel, banish. 16–17g.

d. i ffwrdd: to drive away. 1568.

d. ymaith: to drive or send away, drive out, repel, repulse. 14g.

dyrraith¹ *a.*

(a) *eager, desirous, avid, hasty.*

14g.

(b) *unfruitful, fruitless, weak.*

15g.

Gw. hefyd **dyreaf: dyrain**.

dyrraith², 3 un. grff. y f. *dyreaf: dyrain.*

dyrras, dyrrasedd, dyrraswch, gw. **diras, dirasedd, diraswch**.

dyrrreith, 3 un. grff. y f. *dyreaf: dyrain.*

dyrrwyf *eg. incentive, incitement, inducement, compulsion; ? disease.*

Dchr. 14g.

dyrton, gw. **deirton**.

dyruaf: dyruo *bg. to roar, rumble, resound, reverberate.*

1836.

dyrwden, gw. **tarddwden, tarwden**.

dyrwen, gw. **dirwen**.

dyrwest, gw. **dirwest**.

dyrwn *a. dire, severe, dour, steadfast.*

Dchr. 14g.

dyrwyf, gw. **dyrrwyf**.

dyrwygaf: **dyrwygo, dyrwygiad, dyrwygol,** gw. *dy*⁻¹+*rhwygo, rhwygiad, rhwygol.*

dyrwymaf: **dyrwymo,** gw. *dy*⁻¹+*rhwymo.*

dyrydaf: **dyrydu,** gw. **dierydaf:** **deirydu.**

dyry(dd), 3 un. pres. myn. y f. *dyroddaf: dyroddi.*

dyrymred, gw. **darymred.**

dyrynaf, dyrynnaf: **dyrynu, dyrynnu,** gw. **dirwynaf: dirwyn.**

dyrys *a.* a hefyd fel *eg.*

(*a*) *wild, rough, uncultivated; tangled with undergrowth, thorny (of land); thick-branched (of trees, &c.), dense, matted; intricate, entangled, labyrinthine, confusing.*

I4g.

(*b*) *difficult, hard, intricate, abstruse, complicated, perplexing, confused or confusing, hindering, obstructive; unfortunate.*

c. **I300.**

(*c*) *wild, unruly, unmanageable, perverse, mischievous, wicked.*

I4g.

(*d*) *cunning, clever, adroit, skilful; crafty, wily.*

I4–I5g.

Fel e. uncultivated land, thicket, wilderness; intricate thing; difficult or perplexing situation, &c., adversity.

Dchr. **I4g.**

dyrysaf: dyrysu, dyrysbeth, dyrysbwnc, dyrysedd, dyrysgoed, dyrysi, dyryslwyn, dyryslyd, &c., gw. **drysaf: drysu, &c.**

dys- *rhgdd., ff. ddiw. ac anghywir ar y rhgdd. dis-, fel yn y ff. dysgwyl, dystaw (am disgwyl, distaw, &c.), a gamsillefid felly yn y ganrif ddiwethaf o gymysgu'r rhgdd. efallai â dys- (< dy⁻¹+ys-) fel yn dysbeidiol, &c.*

dysaethaf: dysaethu *ba. to shoot, strike; attack.*

I4g.

dysail, dysyl *eb. ll. dyseiliau, dysylau. foundation.*

I567.

dysait *eg. deceit.*

Div. **I5g.**

dysbaid *eb. ll. dysbeidiau. cessation, respite (from labour, pain, &c.); pause; intermission, spell of leisure, vacation.*

I604–7.

dysbaidd, gw. **disbaidd.**

dysbeidiad *eg. ll. -au. temporary cessation or discontinuance, intermission, pause, respite.*

I604–7.

dysbeidiaf: dysbeidio *bg. to desist or cease for a time, intermit, discontinue, cease, stop, pause; rest a while, leave off; be assuaged.*

I6g.

dysbeidiant *eg. cessation, pause; vacation.*
1885.

dysbeidiol *a. intermittent, spasmodic, occasional; ceased, discontinued.*
1604-7.

Am cyrd dysbeidiol, ffynnon dd., twymyn dd., gw. cryd, ffynnon, twymyn.

dysbeidiwr *eg. ll. -wyr. slacker, shirker, sluggard.*
1604-7.

dysbiwt, gw. **disbiwt**.

dysbleaf: **dysbleu**, gw. **disbleaf**: **disbleu**.

dysbrad, gw. **desbrad**.

dysbrychaf: **dysbrychu** *bg. to become discoloured, stained or rusty.*
c. 1700.

dysbwyll, **dysbwyllaf**: **dysbwylo**, **dysbwylledd**, gw. **disbwyll**, &c.

dysen, gw. **dwsin**.

dysentri *eg. dysentery.*
1545.

dyserth, gw. **diserth**¹.

dysg *eb.g. ll. -au. learning, erudition, scholarship, education; teaching, doctrine; (moral) instruction, training; study or field of study; discipline; skill, proficiency.*

13g.

Cfn.: bod wrth ddysg: to be amenable to teaching; follow a course of instruction. c. 1550.

cymryd d.: to be instructed or taught, take advice or instruction. 1568.

Am duwiesau'r dysg, gŵr o dd., gŵr wrth dd., gw. duwies, gŵr.

dysgad, gw. **dysgiad**.

dysgadur *eg. ll. -iaid. disciple, learner; teacher; doctor.*
c. 1400.

dysgadwy *a.bfl. teachable, easily learned, easily taught or instructed, willing to learn or be taught.*

1604-7.

dysgaf: **dysgu** *ba.*

(a) *to learn, study, memorize.*

13g.

(b) *to teach, instruct, educate, counsel, reprove.*

14g.

Cfn.: dysgu allan: to learn off, learn by heart. Ar lafar.

d. ar gof: to learn by heart, memorize. Ar lafar.

d. ar dafolleferdydd = d. ar gof. c. 1585.

d. gan: to learn from, take instruction from. 1588.

d. o'r gwraidd: to learn thoroughly (lit. to learn from the roots). Ar lafar.

d. pader i berson: to teach an expert or recognized authority (lit. to teach a prayer to a parson).
Ar lafar.

dysgaid *a. a hefyd fel eg. ll. dysgeidion, dysgeidiau. learned, instructed; learning, instruction; learned one.*

14g.

dysgaidd *a. learned, (well) instructed.*

p. 1584.

dysgamar, gw. **disgamar**.

dysgaraf: **dysgaru** *bg.a.* to play the wanton, be lecherous.

Diw. 15g.

dysgarthaf: **dysgarthu** *ba.* to scour, purge.

[1783].

dysgawdwr, **dysgawdr** *eg. ll.* *dysgawdwyr*, *dysgodron.* teacher, instructor, learned man or doctor.

13g.

Amr.: **dysg(i)awdur**. 1567.

dysgiawd(w)r. 14g.

Cfn.: **dysgawd(w)r cyfraith**, —**o'r gyfraith**: Doctor of Laws; teacher of the law. 1688.

d. diwinyddiaeth, —**difinyddiaeth**, —**o ddiwinyddiaeth**: Doctor of Divinity. 1688.

(**herwydd**) **y Dysgodron**: (according to) the Septuagint. 14g.

dysgedig *a.bfl.* a hefyd fel *eg. ll.* -ion.

(a) taught, instructed, well-versed, learned, erudite, literate; educated; skilled, expert, trained.

14g.

(b) learned, learnt.

1775.

Fel *e.* learned person, scholar.

1588.

dysgedigaeth *eb. ll.* -au. instruction, teaching, doctrine; learning; instigation.

13g.

dysgediglun, **dysgediglawn** *a.* learned, most learned.

14g.

dysgedigol *a.* instructive, educational; learned.

1795.

dysgedydd, **dysgiedydd** *eg. ll.* -ion.

(a) learner, disciple, pupil.

c. 1400.

(b) teacher, instructor.

1794.

dysgeidfa *eb. ll.* -fâu. college.

1605–10.

dysgeidiad *eg. ll.* -iaid. teacher, instructor.

1571.

dysgeidiaeth, **dysgeidaeth** *eb.g. ll.* -au. teaching, doctrine; instruction, education; learning, scholarship.

[1547].

Cfn.: **dysgeidiaeth naturiol**: natural science or knowledge in general. 1688.

dysgeidiaethol *a.* pertaining to learning or study, educational.

1819.

dysgeidiol *a.* educational; scholastic, learned; doctrinal.

1604–7.

dysgeidiwr *eg. ll.* -wyr. teacher, instructor.

1684.

dysgeiddrwydd *eg. learning, erudition.*
p. 1584.

dysgeity *eg. ll. dysgeitai. college.*
c. 1762-79.

dysgiad, dysgad *eg. learning; instruction, training.*
14g.

dysgiadur, gw. dysgadur.

dysgiaid, gw. dysgaid.

dysgiawdr, dysgiawdur, dysgiawdwr, gw. dysgawdwr.

dysgiawr *eg. neu a. descent, fall, break; learning, modest.*
13g.

dysgiedydd, gw. dysgedydd.

dysgl *eb. ll. -au.*

(a) dish, plate, platter, salver; cup; also fig. and transf.; dish prepared in a particular way.

10g.

(b) quoit, disk.

15g.

Amr.: desg(i)l. 13g.

Cfn.: dysgl gawl: soup-plate, soup-bowl. 1632.

dysglau Marsli: *brighness of sunlight on wet rocks or on hill waters (lit. Marsli's dishes). 1864.*

dysgl pont Menai: *old willow pattern dish or plate (lit. the plate of Menai Bridge). Ar lafar.*

d. bren: *trencher. 1798.*

d. bwdin: *pudding-dish. Ar lafar.*

d. de: *tea-cup. 1771.*

bwrw yn n. un: *to upbraid (one) or cast in one's teeth. 1595.*

Am cadw (dal) y ddysgl yn wastad, gw. cadwaf: cadw, daliaf: dal.

dysglaer, gw. disglair.

dysglaf: dysglo, -u ba. *to dish, dish up (food); dish (a wheel).*
1722.

dysglaid *eb. ll. dysgleidiau. dishful, plateful; dish of food, dish.*

1653.

Cfn.: dysglaid o de: cup of tea. 1877.

dysglair, gw. disglair.

dysglan *eb. little dish, plate, saucer.*
1604-7.

dysgleidiaf: dysgleidio *ba. to dish.*
1772.

dysgleiniad, dysgleiniaf: dysgleinio, gw. disgleiniad, disgleiniaf: disgleinio.

dysglöen *eb. chip, splinter.*
15g.

dysgloff, dysgloffaf: dysgloffi, gw. disgloff, disgloffaf: disgloffi.

dysglog *a. concave; dished (of a wheel).*

1762.

dysglwr *eg. ll. -wyr. platter-maker; waiter, sewer.*

1722.

Cfn.: **dysglwr bwyd:** *sewer, one who sets out a table, &c. 1722.*

dysglydd *eg. ll. -ion. dish-bearer, waiter.*

15-16g.

dysgodr, gw. **dysgawdr.**

dysgodres *eb. ll. -au. female teacher, schoolmistress.*

1632.

dysgogaf: dysgogi *ba. to move, stir, excite, rouse.*

14g.

Gw. hefyd cysgogaf: **cysgogi.**

dysgoganaf: dysgogan, gw. **disgoganaf: disgogan.**

dysgoraf: dysgor, -i *ba. to gather, assemble.*

Dchr. 14g.

dysgrawling *eg. glue, cement.*

14g.

dysgrethain, gw. **disgrethaf: disgrethain.**

dysgrïaf: dysgrïo, gw. **disgrïaf: disgrïo.**

dysgrifiad, dysgrifaf: dysgrifio, gw. **disgrifiad, disgrifaf: disgrifio.**

dysgub *eb.g. ll. -au, -ion.*

(a) *handful; a sweeping.*

1722.

(b) *sweepings, refuse.*

1567.

dysgubaf: dysgub, -o *ba. to sweep, clear away.*

1672.

Amr.: **dasgub(o).** *Div. 15g.*

dysgubell *eb. ll. -au. besom, broom; fig. a slattern.*

1672.

dysgubion, gw. **dusgub.**

dysgweddaf: dysgweddud, dysgweyd *ba. to tell, declare, relate.*

Dchr. 14g.

dysgweinid *ba. to serve, tend.*

Dchr. 14g.

dysgwr *eg. ll. -wyr.*

(a) *learner, disciple, apprentice.*

1768.

(b) *teacher, instructor.*

14g.

dysgwriaeth *eb. learning, scholarship, instruction.*

15g.

dysgwrthebaf: dysgwrtheb(u), gw. **dywrthebaf: dywrtheb(u)**.

dysgwyliad, dysgwyliaf: dysgwyl, &c., gw. **disgwyliad, disgwyliaf: disgwyl, &c.**

dysgydd *eg. ll. -ion. teacher.*
I794.

dysgymon *eg. fuel, kindling.*
I4g.

dysgyr, gw. **disgyr**.

dysgyrchaf: dysgyrchu, dysgyrchiad, &c., gw. **disgyrchaf: disgyrchu, disgyrchiad, &c.**

dysgyrnaf: dysgyrnu, gw. **disgyrnaf: disgyrnu**.

dysgywen, gw. **disgywen**.

dysmal, gw. **dismol**.

dysmythaf: dysmythu, gw. **dismythaf: dismythu**.

dyspaid, dyspeidiad, dyspeidiaf: dyspeidio, gw. **dysbaid, dysbeidiad, dysbeidiaf: dysbeidio**.

dystiaf: dystio *ba. to dust.*
Ar lafar.

dystlyd *a. dusty.*
I4g.

dystreuliaf: dystreulio, gw. **distreuliaf: distreulio**.

dystrewaf: dystrewi, dystrewlys, gw. **distrewaf: distrewi, distrewlys**.

dystryw, dystryw-, gw. **distryw, &c.**

dystwc, 3 un. pres. myn. y f. *dyddygaf: dyddwyn*, gyda'r rh. m. 's.

dysweddaf: dysweddu *ba. to describe, characterize.*
I595.

dysychaf, disychaf: dysychu, disychu *bg.a.*

(a) *to dry, dry completely, air (clothing); absorb; drain (land); wipe.*
I3g.

(b) *to become dry, dry up, wither, desiccate.*
I4g.

dysychiad *eg. a making dry, drying up, desiccation, drainage.*
I795.

dysyf, dysyfaf: dysyfu, &c., gw. **deisyf, deisyfaf: deisyfu, &c.**

dysyfyd, gw. **disyfyd**.

dysyl, gw. **dysail**.

dysyllaf: dysyllu *bg.a. to watch, keep guard; look, observe intently.*

13g.

dysyml, gw. *disyml*.

dyt, gw. *dỳd*².

dytgyrch, gw. *dietgyrch*.

dyting *eg. ll. -au. a tithing.*

15g.

Dytseg *eb. Dutch (language).*

16g.

dythwn, gw. *dwthwn*.

dyun, **duun** *a. a hefyd fel eg. agreeing or in (full) agreement, accordant, concordant, united, with one accord, of one mind; ready, willing, desirous; acceptable, agreeable, desirable.*

13g.

Fel e. agreement, fellowship.

14g.

dyunaf, **duunaf**: **dyuno**, **duuno** *bg.a. a'i dilyn yn aml gan yr ardd. â, ar.*

(a) *to agree, accord, consent, concur; unite, join, combine, confederate (with).*

13g.

(b) *to come together, gather, assemble.*

c. 1400.

(c) *to bring together, convene.*

c. 1400.

Amr.: duno. 1632.

dyundeb, **duundeb**, **dyundab** *eg. agreement, consent, satisfaction, concord, compact, peace, unity.*

13g.

Amr.: dundeb. 14g.

dyundod, **duundod** *eg. agreement, accord, concord, satisfaction.*

c. 1400.

dyunfoes, **duunfoes** *eb. pleasant or agreeable manner or custom.*

14g.

dyunol *a. concordant, accordant.*

1795.

dyunoliaeth, **duunoliaeth** *eb. consent, agreement, accord.*

14g.

dyw¹, **duw**, **diw** *eg. a grym adferfol. (on) day (preceding the name of a specific day, e.g. week-day or feast-day).*

13g.

Cfn.: dyw Awst: the first day of August, Lammas day. 14g.

d. Calan: *New-year's day; kalends or first day of the month. 14g.*

d. Calan gaeaf: *the first day of November, All Saints' day, All-hallows' day. 1547.*

d. Calan Ionawr: *New-year's day, the kalends of January. 13g.*

d. Calan Mai, —Calanmai: *May-day, the kalends of May. 1547.*

d. Gwener y Groglith: *Good Friday. 1547.*

d. gŵyl Luc: *the feast-day of Saint Luke. 14g.*

d. gŵyl Mihangel, —Fihangel: *Michaelmas day. 14g.*

d. gŵyl Badrig: *Saint Patrick's day, 17 March. c. 1400.*

d. gŵyl Bawl: *Saint Paul's day. 1547.*
 d. (gŵyl) Ystwyll: *the feast of Epiphany. c. 1400.*
 d. Iau Cyfarchafael (Cyrchafael, Cychafael): *Ascension Thursday. c. 1300.*
 d. Mawrth Ynyd: *Shrove Tuesday. 1757.*
 d. Mercher y Brad: *Tenebræ Wednesday, Spy W. c. 1400.*
 d. Mercher y Lludw: *Ash-Wednesday. c. 1300.*
 d. Nadolig: *Christmast day. 14g.*
 d. Pasg: *Easter day. 14g.*
 d. Pasg bychan: *Low Sunday. 13g.*
 d. Sul gwyn,—Sulgwyn: *Whit Sunday. Dchr. 14g.*
 d. Sul y Drindod: *Trinity Sunday. 14g.*
 d. Ynyd = d. Mawrth Ynyd. *c. 1400.*
 d. Ystwyll, gw. d. (gŵyl) Ystwyll.
 Gw. hefyd dydd, diau², difiau, dywiau, dywillun, dywsul, heddiw.

dywz,—pa d., gw. paddiw.

dywad¹, 3 un grff. Cym. C. y f. *dywedaf: dywedyd.*

dywad², gw. dyfod.

dywadaf: dywadu, gw. diwadaf: diwadu.

dywadnaf: dywadnu *bg. to foot it, take to one's heels; run away.*
 1795.

dywaddolaf: dywaddol(i) *ba. to share, distribute, endow (with).*
 13g.

dywaf*: dywa *ba. to utter, speak, say.*
 Dchr. 14g.

dywal *a. a hefyd fel eg.*

(a) *fierce, cruel, furious, fearful.*
 13g.

(b) *rampant (in Heraldry).*
 15g.

Fel e. fierce warrior, brave fighter.
 13g.

dywalaf: dywalu *bg. to grow fierce, become savage or ferocious.*
 c. 1400.

dywalder *eg. ll. -au. fierceness, ferocity, cruelty, atrocity.*
 13g.

dywaledd *eg. fierceness, cruelty.*
 14g.

dywalgi *eg. ll. -gwn. unknown wild beast (possibly the wolf); tiger; fig. fierce, pugnacious man.*
 1742.

dywalhaf: dywalhau *bg. to grow fierce, wax cruel.*
 13g.

dywalrwydd *eg. fierceness, ferocity, cruelty.*
 c. 1400.

dywallofiat: dywallaw, dywalofi *ba. to tend, deal out, distribute, serve, hand; pour.*
 13g.

dywalltrain, gw. diwalltrain.

dywan¹ *eg. a hefyd fel a. accident, chance, happening; accidental.*

I4g.

Gw. hefyd **mab—m. dywan.**

dywan² *a. weak, feeble, infirm.*

I604–7.

dywanaf: dywanu *bg.a. a'i dilyn (fel bg.) gan yr ardd. ar, at, i.*

1. *to come (or go) by chance, happen (to find), light (upon), hit or chance (upon); hasten, hurry, dart.*

I4g.

2. *to cause to happen, bring to pass, grant.*

I4g.

3. *to pierce, stab.*

Dchr. I4g.

dywander *eg. weakness, feebleness, debility.*

I604–7.

dywanfa, gw. **diwanfa.**

dywardaf¹: dywardu *ba. to deliver, save from danger.*

I4g.

dywardaf²: dywarded, ff. **lafar**, gw. **dynwardaf: dynwarded.**

dywarthaf: dywarthu, gw. **diwarthaf: diwarthu.**

dywasg, dywasgaf: dywasgu, gw. **dy⁻¹ + gwasg, gwasgu.**

dywasgaraf: dywasgaru *ba. to disperse, scatter about.*

Dchr. I4g.

dywawd, 3 un. grff. Cym. C. y f. **dywedaf: dywedyd.**

dywawl, gw. **dwyfol.**

dywedad, gw. **dywediad.**

dywedadwy *a.bfl. that may be said, to be said, to be spoken of, to be related or told.*

I4g.

dywedaf: dywedyd (-ud), dweud, †dywedwyd, &c. *bg.a. a'i dilyn yn aml gan yr ardd. wrth, i.*

1. *(a) to say, speak, utter, express, declare, state, make known, announce; speak (a language); assert, allege; treat (of); tell, relate, say or recite.*

I3g.

(b) to pronounce.

I547.

2. *(a) to mention, refer to.*

I3g.

(b) to call, denominate, style.

I3g.

Amr.: deud, dwyd. I684.

doedyd. I4–I5g.

dweudyd. c. I759.

dywaedyd. I615.

gwedyd, gweud. c. 1300.

Cfn.: **dweud a dweud**: to keep on saying. Ar lafar.

d. adnod: to say or recite a verse. Ar lafar.

d. (dywedyd) am: (i) to speak of, refer to; tell of. c. 1400. (ii) (with a vn.) to tell or bid (person) to do (something). 1567.

d. anwiredd: to tell a lie; speak wickedly. 1588.

d. ar (arno, &c.): (i) to report of, inform against, betray confidence, 'split'; charge or accuse (of). 13g. (ii) to have (an adverse) effect upon, cause to change or alter. Ar lafar. (ii) to tell by, perceive or make out (from person's appearance, &c.). Ar lafar.

d. ar gân: to chant. 1722.

d. ar ei gyfer: to speak heedlessly, make an unfounded remark. Ar lafar.

d. ar osteg: to speak or declare openly. 1632.

d. ar ei beth mawr: to swear hard. Ar lafar.

d. ar dafodleferydd: to repeat from memory, say by heart, recite; say or attest by word of mouth, express in words. c. 1400.

d. ei fola berfedd: to pour out all one's private troubles to another (lit. to say or declare the entrails of one's belly). Ar lafar.

d. carreg a thwll: to talk gibberish or speak to a block of wood (lit. to say stone with a hole). Ar lafar.

d. celwydd (celwyddau): to tell a lie (lies). 1346.

d. celwydd ar: to tell a lie about, make a false statement about. 1677.

d. celwydd golau: to tell a white lie. 1632.

d. cwec: to utter a syllable, make the least noise. 17g.

d. cwyn (ei gwyn, &c.), gw. cwyn¹.

d. (ei) chwedl: to tell his tale, report what he has seen and heard; relate stories. *Diw.* 15g.

d. dewiniaeth: to tell by soothsaying or divination. 1620.

d. dirmyg: to speak contemptuously. a. 1561.

d. drwgabsen: to utter calumny, defame. 1632.

d. ei ddyletswydd: to say his prayers (lit. his duty). Ar lafar.

d. ffarwel: to bid farewell. 1778.

d. ffortun: to tell one's fortune. Ar lafar.

d. gweddi: to say a prayer. 15g.

d. (y) gwir: to speak or tell (the) truth. 14g.

d. gyda: to speak in support of, agree with. p. 1584.

(ei) dweud hi: to speak volubly and (as a rule) indignantly. Ar lafar.

d. hyd adref: to speak so as to drive home (a point, &c.). 1604-7.

dywed i mi: tell me. 1588.

d. ei feddwl: to speak his mind, say what one thinks. 1632.

d. mwyr: to exaggerate. Ar lafar.

d. o: to speak of; call or name. c. 1400.

d. pader(au): to say the Lord's prayer; say a prayer (or prayers), say one's beads. c. 1400.

d. pader wrth (i) berson: to tell a person what he already knows, teach one's grandmother (lit. to say a prayer to a parson). 1754.

d. y pwnc: to recite a portion of Scripture selected for Sunday School catechizing. Ar lafar.

d. rhwng ei ddannedd = d. dan ei ddannedd. Ar lafar.

d. dan ei ddannedd: to mumble, mutter, speak indistinctly. 1604-7.

d. tesni: to tell fortune. 1814.

d. y drefn (wrth): to lay down the law, reprove, reprimand, scold. Ar lafar.

d. drwy ei ddannedd = d. dan ei ddannedd. 1604-7.

d. drwy'r trwyn: to speak nasally or with a nasal twang. 1732.

d. tyngedfen: to predict future events, vaticinate. 1632.

d. ei dywydd: to relate one's troubles, tell one's tale of woe (lit. to tell one's weather). Ar lafar.

d. yn fach (fychan) am: to belittle, speak depreciatingly of. Ar lafar.

d. yn floesg: to speak thick, indistinctly or lispingly. 1776.

d. yn dda (am): to speak well (of), have a good word (for). 1682.

d. yn ddrwg (am): to speak ill (of). [1783].

d. yn eglur: to speak plainly. 1588.

d. yn erbyn: to speak against, contradict, gainsay. *Diw.* 15g.

d. yn isel: to speak in a low or hushed voice, mutter. 1632.

d. yn rhamant: to prognosticate, predict, foretell the future. 1632.

d. yn deg: to speak fair, flatter, blandish. 1588.

d. yn dew ac yn denau: to speak recklessly, orate. Ar lafar.

d. yn wyneb un: to speak to one's face. Ar lafar.

dyweder: say for instance. Ar lafar.

dwedwch, deudwch: say for instance; I wonder, let me see, tell me (at the end of a sentence). Ar lafar.

dywedwch a ddywetoch: say what you will. 1754.

Am *atal dywedyd*, *ys dywed*, gw. **atal**, *ys*.
Gw. hefyd **gwedaf**: **gweud**, **gwedyd**.

dywedawdr, **dywedwydawdr**, &c. *eg. ll. -odron. speaker.*
c. **1400**.

dywededig *a.bfl. a hefyd fel eg. ll. -ion. aforementioned, afore-said (person or thing); spoken, uttered, said.*

13g.
Amr.: **dywedig. 1346.**

dywededigaeth *eb. a saying or declaring, statement.*
1560-88.

dywedgar, gw. **dywetgar**.

dywedgarwch, **dywetgarwch** *eg. loquacity, talkativeness.*
1604-7.

dywediad, **dweudiad**, **doediad**, &c. *eg. ll. -au.*

(a) *statement, assertion, expression; saying, aphorism, maxim, adage, proverb.*
[1547].

(b) *a speaking or uttering; pronunciation; diction.*
1547.

Gw. hefyd **dywedwydiad**¹, **dywedydiad**.

dywedig, gw. **dywededig**.

dywedigol *a. utterable.*
p. **1584.**

dywedol *a. loquacious, talkative.*
1604-7.

dywedwr, **doedwr** *eg. ll. -wyr. sayer, teller, speaker; (effective) public speaker or orator.*

1604-7.
Amr.: **deudwr**. Ar lafar.
Cfn.: **dywedwr tesni**: *fortune-teller. 1832.*

dywedwst, **tawedwst** *a. a hefyd fel eb. taciturn, reserved, uncommunicative.*
1714.

Fel *eb. taciturnity; the mumps.*
1776.

Gw. hefyd **gwedwst**.

dywedwyd, gw. **dywedaf**: **dywedyd**.

dywedwydawdr, gw. **dywedawdr**.

dywedwydiad¹, **dywedydiad**, &c. *eg. speech, voice; saying, statement; manner of speech; (gram.) form, pronunciation.*

13g.

dywedwydiad² *eg. ll. -iaid. talkative person, babbler.*

14g.

dywedwydol *a. eloquent; loquacious, (too) talkative, babbling, clamorous; affable.*

14g.

dywedwytgar, **dywedytgar** *a. loquacious, babbling, gossiping.*

15g.

dyweddaf: dyweddu *bg. to suit, befit.*

Dchr. 14g.

dyweddedig, gw. dyweddiedig.

dyweddi *eb.g. ll. -ïon, -ïau.*

(a) betrothal, espousal, engagement, marriage contract; nuptials, marriage, matrimony, also fig.

13g.

(b) one who is betrothed, fiancé(e); bride; spouse, partner, mate; also fig.

Dchr. 14g.

dyweddiad *eg. ll. -au. betrothal, espousal, engagement; also fig.*

1588.

dyweddiadwy *a.bfl. marriageable.*

1798.

dyweddiaf: dyweddio *bg.a. a'i dilyn gan yr ardd. â, i. to betroth, affiancé (in trans. and reflex. senses), become engaged; also fig.*

15g.

dyweddiedig *a.bfl. betrothed, espoused; wedded, married; also fig. espoused, cherished.*

1707.

dyweddiog, -iol *a. pertaining to betrothal or marriage, conjugal, nuptial; betrothed, espoused.*

1604-7.

dyweddiwr *eg. (b. dyweddiwraig, ll. -wragedd) ll. dyweddiwyr. male engaged to be married, fiancé; bridegroom; match-maker.*

1567.

dyweiniaf: dyweinio, dywain *ba. to bring in, introduce; convene, assemble.*

c. 1785-90.

dywelling, gw. diwelling, diwelling.

dywen *eb. ll. -au. smile, cheerful look; leer, grin, smirk.*

1752.

dywenydd *eg. neu fel a. gladness, delight, joy, pleasure; glad, happy.*

12g.

Gw. hefyd **diwenydd**.

dywenyddol *a. pleasurable, amusing, entertaining, interesting.*

1778.

dywesgrynaf: dywesgryn *ba. to thrust, push.*

Dchr. 14g.

dywetgar *a. loquacious, talkative, prattling.*

1604-7.

dywetgarwch, gw. dywedgarwch.

dyweud, gw. dywedaf: dywedyd, dweud.

dywgwyl, gw. dygwyl.

Dywiau, gw. Difiau.

dywibiaf: dywibio, gw. dy⁻¹ + gwibio.

dywid, gw. diwyd.

dywir, gw. dy⁻¹ + gwir.

dywiriaf: dywirio *ba. to prove true, verify, confirm.*
I4g.

dywisgaf: dywisgo *ba. to wear (garment, &c.); clothe, dress.*
Dchr. I4g.

dywiw *a. most worthy, delightful.*
I4g.

Dywillun *eg. Monday.*

I5g.

Cfn.: **Dywillun du:** *black Monday, day of misfortune. I8g.*

D. Pasg: *Easter Monday. I5g.*

dywnaf: dywneuthur *ba. to effect, accomplish.*
I3g.

dywod¹, 3 un. grff. y f. *dywedaf: dweud.*

dywod², gw. deuaf: dyfod.

dywolder, dywoliaeth, gw. duwolder, dwyfolder, duwioliaeth.

dyworpi, 3 un. dyf. y f. *dyorfyddaf, dyorwyf: dyorfod.*

dywosionol, dywosiwn, gw. defosiynol, defosiwn.

dywres, gw. diwres.

dywresaf: dywresu *ba. to warm, heat.*
Diw. I6g.

dywrthebaf, dysgwrthebaf: dywrtheb, dysgwrtheb(u) *ba. a'r be. fel e. to answer, respond; answer, response.*

Dchr. I4g.

dywrthladdaf: dywrthladd *ba. to resist; repel.*
Dchr. I4g.

dywrthred *eb. trouble, adversity; a retreating.*
Dchr. I4g.

dywrthrynaf: dywrthryn *ba. to oppose, withstand.*
c. I400.

Dywsadyrngwaith *eg. one particular Saturday, of a Saturday.*
I4g.

Dywsul, Duwsul *eg. Sunday.*

I346.

Cfn.: **Dywsul y Blodau:** *Palm Sunday. I547.*

D. y Creiriau: *Relic Sunday (the third Sunday after Midsummer). I547.*

D. y Sulgwyn: *Whitsunday. I547.*

D. y Drindod: *Trinity Sunday. I547.*

D. Ynyd: *Quinquagesima Sunday (formerly Shrove Sunday). I547.*

Dywsulgwaith, dyw Sulgwaith *eg. one particular Sunday, of a Sunday.*

15g.

dywt, dywti, gw. dowt, diwti.

dywydd, dowydd *eg. a hefyd fel a. springing (of a cow, &c.); labour pains, parturition, delivery; swelling.*

16–17g.

Fel *a. springing (of cow, &c.).*

1772.

dywydd *a. awkward, clumsy.*

14g.

dywyddaf, dowyddaf: dywyddu, dowyddu *bg.a. to spring, swell with milk and show signs of calving; give birth to, drop; labour, travail; swell.*

16–17g.

dywyddiad, dowyddiad *eg. the springing of a cow or mare (when near calving or foaling).*

1722.

dywyg, dywygiad, dywygiaf: dywygio, gw. diwyg, diwygiad, diwygiaf: diwygio.

dywyl¹ *a. black, coloured.*

13g.

dywyl², gw. diwyl¹.

dywylliaf: dywyllio, gw. diwylliaf: diwyllio.

dywyn faddau, gw. diwyn².

dywynnig *a. shining, bright; prominent, conspicuous.*

14g.

dywynygaf: dywynygu, dywynnyg *bg.a. to glitter, shine; appear; show, explain.*

Dchr. 14g.

Gw. hefyd echdywynygaf: echdywynygu.

dywyrnod, &c., gw. diwrnod.

dywystlaf: dywystlo *bg.a. to pledge, bind, swear on oath; bind oneself, pledge oneself.*

13g.

dyysgaraf: dyysgar *bg.a. to separate; scatter.*

c. 1400.

dyystyngaf: dyystwng *bg.a. to lower, subdue; humiliate oneself.*

Dchr. 14g. cytsain, a'r chweched lythyren yn yr wyddor Gymraeg; ni ddigwydd ar ddechrau gair ond fel tr. ml. d, e.e. dafad, dy ddafad, ei ddafad, &c.

'dd, gw. ydd.

'ddar, gw. o-, oddi ar.

-dde, -de *trf. a. a ychwanegir at e. (yn anfynech at a. arall) gan gyfleu'r ystyr o natur neu ansawdd: adjectival ending or suffix added to a noun (rarely to another adj.) conveying meaning 'of the nature, quality, appearance of', e.g. 'addwyne, angdde, brodyrdde, creudde, eurdde, fflamdde, glywdde, graeandde,*

graendde, gwibdde, gwrmdde, haearndde, heildde, llugdde, prifdde, trymdde, ysgardde.
1632.

ddi, ddy, gw. **di**¹, **dy**, **i**. llafariad, y seithfed lythyren a'r ail laf. yn yr wyddor Gymraeg; *Brf.*: *e.e.*, er enghraifft.

e-, eh- *rhgdd.*, gw. **ech-**.

e¹, ff. org. Cym. C. Cyn. ar y fannod, gw. **y**.

e² *rh. prs. a gn. rhagferfol.*

(a) *simple personal pronoun, 3rd pers. sing., he, him, it*.

15g.

(b) *preverbal particle*.

15g.

Am *aie*, *nag e*, *onid e*, gw. yr elf. flaenaf.

Gw. hefyd **ef**, **fe**.

e³ *gn. gof. ac ebd.*

(a) *interrogative particle, 'eh'?*.

Ar lafar.

(b) *interjection expressing sense of loss and sometimes pleasure, &c., 'eh!'*.

Ar lafar.

eang *a. a hefyd fel eg. ample, spacious, large, extensive, broad, wide, open; free; liberal, generous.*

12-13g.

Fel *e. wide, open space, expanse; favourable times or circumstances (opp. to straits)*.

13g.

Amr.: **eheng. 1547.**

Cfn.: **ar eang**: (i) *from far and wide, on an extensive scale. 13g.* (ii) *in the open. 14g.*

eangfesur *eg. ll. -au. cubic measure.*

1768.

eangfrydedd *eg. magnanimity.*

1844.

eangfrydig *a. magnanimous.*

1862.

eawg, gw. **eog**.

eawn, gw. **eofn**.

eaws, gw. **eos**.

eb-, yr un elf. ag yn *ebol*, fe ddigwydd yn yr *e. epil* (sef **eb* 'ceffyl' + *hil*) a hefyd o bosibl yn *ebrwydd*; digwydd hefyd yn yr enw Mynydd *Epynt* 'llwybr ceffylau'.

-eb, trf. diw. yn dynodi dogfen, &c., *e.e. anfoneb, archeb, deiseb, derbynneb, taleb.*

eb¹, *ardd.*, gw. **heb**.

eb² *eg. ll. -ion. saying, utterance, remark, expression; (pl.) notes, jottings.*

1795.

eb³, **ebe**, **ebr** *ba. says (he, &c.), said (I, he, they, &c.), quoth (the word is*

placed after or before and sometimes between the words quoted).

14g.

Amr.: **ebra, ebre, ebro. 1676.**

Gw. hefyd **atebaf: ateb, gohebaf: gohebu, hebaf: hebu.**

ebach *eb.g. ll. -au. nook, corner, bend, turning; small bay or inlet, cove, haven; shelter, covert.*

16g.

eban ?*a. a hefyd fel eg.b.*

(a) sluggish, feeble, spiritless; dazed, stupefied; ?fear, draed, terror.

14g.

(b) tumult, war.

c. 1562.

ebargofaf, ebrgofaf, &c.: ebargofi, ebrgofi, &c. ba. to forget.

14g.

Amr.: **ebrygofi. c. 1400.**

Gw. hefyd **abergofaf: abergofi.**

ebargofiad, ebrgofiad *eg. a forgetting, amnesty; forgetfulness; oblivion.*

1604-7.

Amr.: **ebrygofiad. 1604-7.**

Am deddf ebargofiad, gw. deddf.

Gw. hefyd **abergofiad.**

ebargofiaeth, ebrgofiaeth *eb. oblivion.*

1594-6.

ebargofiant *eg. oblivion.*

1822.

Gw. hefyd **abergofiant.**

ebargofraith *eb. amnesty, act of oblivion.*

1850.

ebargofus, ebrgofus *a. forgetful, oblivious; inducing forgetfulness.*

1604-7.

ebawl, gw. ebol.

ebe, gw. eb³.

ebediw *eg. ll. -(i)au. heriot.*

13g.

Amr.: **bediw. 15g.**

obediw. 15g.

ebenus, hebenus *eg. ebony.*

1346.

ebenwydd, gw. ebonwydd.

ebestl, ebestr, gw. ebystr.

ebiad *eg. ll. -au. vocable.*

1874.

ebiaith *eb. ll. ebieithion, ebieithoedd. part or division of sentence, clause, phrase.*

1595.

ebilon *eb. a kind of elderberry wine formerly distributed at funerals in parts of*

South Wales.

1806.

ebill *eg. b.* (bach. *ebillan*, *-en*, *-yn*) ll. *-ion*, *-iau*.

(*a*) *auger, gimlet, wimble; borer, piercer; peg, (wooden) pin.*

10g.

(*b*) *key or peg (in stringed musical instrument).*

14g.

Cfn.: ebill acstro: brace drill. Ar lafar.

e. carn tro: wimble or piercer. 1688.

e. taradr, e. daradr, ebilldaradr: wimble, gimlet, small auger. 14g.

Am twll ebill, gw. twll.

ebillan, ff. fach., gw. **ebill**.

ebillen, ff. fach., gw. **ebill**.

ebilliad *eg. ll. -au. a boring; a pegging.*

1770.

ebilliaf: ebillio *bg. a. to bore; broach, tap; peg.*

1547.

ebillio *a. having pegs or pins.*

1795.

ebillres *eb. row of pegs or keys in harp by means of which the tension of the strings is regulated.*

1790.

ebillto *eg. roof secured by pegs.*

14g.

ebillwydd *e.tf. short pieces of wood, pegs, sticks; (according to Iolo Morganwg) the staves of the ancient 'peithynen' on which it is said letters were cut.*

1547.

Gw. hefyd pillwydd.

ebillyn, gw. **ebill**.

ebion, ff. l., gw. **eb**².

Ebioniad *eg. ll. -iaid. Ebionite.*

1704.

ebodn, ebod *eg. (horse-)dung.*

c. 1400.

ebodnaf, ebodaf: ebodni, ebodi *bg. to dung, drop excrement (of a horse).*

1547.

ebol *eg. (b. eboles, ll. -au, -i; bach. ebolyn) ll. -ion. colt, foal, sucker.*

13g.

Cfn.: ebol asyn,—asen: ass colt. 1567.

Am carn yr ebol, dail carn yr e., dail troed (traed) yr e., troed (traed) yr e., gw. carn, dail, troed.

ebolaidd *a. coltish; frisky, playful, wanton.*

1755.

eboles, gw. **ebol**.

ebolesog, gw. eboles + -og.

ebolfarch *eg. ll. -feirch. colt, young horse.*
14g.

ebolgarn *eg. colstfoot, Tussilago farfara.*

1604–7.

Cfn.: ebolgarn y (o'r) garddau (gerddi): wild spikenard, Asarabacca, Asarum Europæum. 1604–7.

e. y môr: seaside bindweed, Convolvulus Soldanella. 1813.

Gw. hefyd (dail) carn yr ebol.

ebolig *a. coltish.*

1722.

eboliog *a. in foal, capable of bearing a foal.*

13g.

eboludd *adf. without let or hindrance; without delay, forthwith, immediately; soon, presently.*

1547.

Gw. hefyd goludd—heb o.

ebolyn, gw. ebol.

ebon, gw. eboni.

ebonaidd *a. of the colour of ebony, dark, black.*

1867.

eboni, ebon *eg. a hefyd fel a. ebony; of the colour of ebony, black, dark; made of ebony.*

c. 1762–79.

ebonwydd, ebenwydd, -en *e.ll.b. ebony (wood), ebony tree(s).*

1852.

ebostol *eg.b. ll. ebestyl, ebystyl (sydd hefyd yn ll. abostl, abostol), ebostolion, ebostyliaid.*

1. *apostle.*

13g.

2. *epistle, portion of Holy Scripture; 'homily' that followed the epistle in a religious service; letter; tale, story.*

14g.

Gw. hefyd abostl, apostol.

ebostolaidd, ebostylaidd *a. apostolic.*

1488–9.

Gw. hefyd apostolaidd.

ebostoliaeth *eb. apostleship.*

1346.

Gw. hefyd apostoliaeth.

ebostolol *a. apostolic.*

13g.

Am *eisteddfa ebostolol*, gw. *eisteddfa.*

Gw. hefyd apostolol.

ebr, gw. eb³.

Ebraeg, gw. Hebraeg.

ebnan *eg. ll. -nau. fodder, forage, bait, provender; (occasionally) food consumed by human beings.*

13g.

ebrandy *eg. ll. -dai. baiting-house.*

Digwydd (yn y ff. *brandy* ar lafar) yn enw. fel enw ar dafarn, e.e. yn y rhigwm 'Wrecsam Fechan a Wrecsam Fawr, / Pentre-felin ac Adwy'r-clawdd, / Casgen Ditw a Thafarn-y-gath, / Lletyllygoden a *Brandy*-bach'.

ebrangeirch *eg. oats fed to horses.*

14g.

ebrannaf: ebrannu *ba. to feed (horses).*

14g.

llywodraethol *a. a hefyd fel eg. governing, ruling; dominant, supreme, sovereign, reigning; imperious, arrogant; pertaining to government, governmental, administrative; governable; gram. subject, agent.*

1595.

Amr.: llyfodraethol. 1725–6.

llywiodraethol. 1651.

Am **corff llywodraethol, dosbarth ll., henuriad ll., gw. corff (At.), dosbarth (At.), henuriad (hefyd At.).**

Gw. hefyd **goruwchlywodraeth.**

llywodraethus *a. governable, tractable, disciplined; governed, subject; governing, reigning; prevailing, supreme; regular, orderly; sagacious, politic; imperious, arrogant; pertaining to government.*

1595.

Amr.: llyfodraethus. 1701.

llywodraethwr *eg.* (un. b. -wraig, ll. -wragedd) ll. -wyr. *governor, ruler, administrator, chief, manager, master, lord, also fig.; custodian, guardian, executor.*

1547.

Amr.: llyfodraethwr. **16g.**

llywiwodraethwr, llywiawdraethwr. 1567.

Cfn.: **llywodraethwr Cyffredinol:** *Governor-General. 20g.*

llywodraethydd *eg.* ll. -ion. *governor, ruler; administrator (of deceased person's estate); subject; (gram.) word governing another.*

1604.

llywodraethyddes *eb.* *housekeeper.*

1725.

llywodraethyddiaeth *eb.g.* *government, a governing, reign, governorship; method of government, policy.*

1809.

llywodres, gw. llywiawdr¹.

llywodri *eg.* *government.*

18-19g.

llywodron, gw. llywiawdr¹.

llywodryddiaeth *eb.* *method of government, policy.*

1848.

llywodryddol *a.* *pertaining to government, governmental.*

1845.

llywodwr, llywodwraeth, gw. llywiawdr¹, llywodraeth.

llywodydd, llywiodydd, &c. *eg.* (un. b. -es). *governor, statesman, ruler, manager, director, guide.*

1803.

llywodyddol, llywiodyddol *a.* *pertaining to government, governmental; relating to a director or manager.*

1803.

llywotrefn *eb.g.* *political system; policy.*

1866.

llywr¹, gw. llëwr.

llywr², gw. llyfwr¹.

llywrwyf *eb.* *tiller (of boat); scull.*

1722.

llywy *a.* *a hefyd fel* *eb.* *ac e.ll.* *beautiful, fair, fine, pleasant, splendid, bright, white; fair one, maiden; (dict.) governess, (female) ruler, queen; (dict.) parents.*

13g.

llywyawd ? *a.* *beautiful, bright.*

14g.

llywyachaf: llywychu, llywychedig, gw. llewyachaf: llewychu, llewychedig.

llywydd *eg.* (un. b. -es) ll. -ion.

1. *president, governor, ruler, regent, prefect, chief, head (of college, &c.),*

commander, lord, master, guide, often of God; steersman, helmsman, pilot, (ship's) captain or master, skipper, also fig.

c. 1300.

2. *dominant (in mus.).*

1833.

Gw. hefyd **môr-llywydd, pen-llywydd.**

llywyddaf, llywyddiaf: llywyddu, llywyddio *bg.a. to preside (over); rule, govern, lead; steer.*

18g.

llywyddedig *a. a hefyd fel eg. captained; subject.*

1730.

llywyddfad *eg. ll. -au. pilot-boat.*

1819.

llywyddiad *eg. government, command, management, direction; the action of presiding.*

1803.

llywyddiaeth *eb.g. ll. -au. government, rule, command, management, guidance, oversight, supervision; presidency, governorship; presidency (district), province.*

1773.

llywyddiaf: llywyddio, gw. llywyddaf: llywyddu.

llywyddol *a. presidential; governing, ruling, presiding; dominant (in mus.).*

1803.

llywyddwr *eg. manager, governor.*

1878.

llywygaf: llywygu, gw. llewygaf: llewygu.

llywyn¹ *e?g. a hefyd fel a. sadness; lord; sad.*

15g.

llywyn² *eg. the west.*

1803.

llywynog, llywynydd, gw. llwynog, llewynydd¹.

llywyog *a. white, bright.*

Dchr. 14g.

llywyr¹ *eg. neu e.ll. coward(s).*

c. 1250.

llywyr² *e?g. refuge.*

c. 1400.

llywyr³, ff. l., gw. llëwr.

llywyr⁴, ff. l., gw. llywiwr.

llywyrn, gw. llewyrn.

llywywg *e?g. a kind of animal, ?fox.*

13g.

llyys, gw. llys².

m, cytsain, a'r unfed lythyren ar bymtheg yn yr wyddor Gymraeg; fe'i treigilir yn

feddal gan ei throi yn *f*, e.e. *mam*, *ei fam ef*; hefyd weithiau ar lafar mewn rhai tafodieithoedd fe'i treiglir yn *mh*, e.e. *mam*, *ei mham hi*.

'**m** *rh. m. my; me; to me.*

(a) (o flaen *e.*: *before a n.*)

(b) (o flaen *be.*: *before a vn.*)

(c) (o flaen *bf.*, ac yn fewnol ar ôl rhgdd.: *before a vb. and infixed following a pref.*)

Amr.: **am**⁶. c. **1300**.

ym¹. **13g.**

ma¹ *eg. b. ll. -au. a plain, field; place, spot.*

14g.

Gw. hefyd **-fa**, **gwa**, **mae**¹, **mai**², **mehyn**.

ma² *e?g. bleat of sheep or lamb, baa.*

18-19g.

Gw. hefyd **me**¹.

mab *eg. ll. meib(i)on, (prin) mabion, meib, ll. dwbl meib(i)onain, meibonau (bach. meibionos).*

(a) *boy, son, infant, child (of either sex), minor, youth; descendant; man, male; also fig.*

9-10g.

(b) *(the young of) an animal, bird, &c.*

14g.

(c) *Jesus Christ, the Second Person of the Trinity.*

14g.

(d) *a hero whose coming fulfils a prophecy or vaticination, son of prophecy, prophesied deliverer.*

15g.

Cfn.: **meibion Addaf**: *the sons of Adam, the human race. c. 1400.*

mab aflafar *infant. 1604-7.*

m. aill(t) (i) *unfree landholder, villein; serf, slave, bondman; farmer; also fig. 13g.* (ii) *?bastard. 1567.* (iii) *alien. 1730. Bot. m. alan mawr: butterbur, Petasites hybridus. 1604-7.*

m. (i) alltud: *alien. 13g. Cyfr. m. amau: doubted son. 13g. Cyfr. m. ameuedig: a son whom the father neither legally owns nor disowns, reputed son. 14g.*

m. (y) amheuaeth: *sceptic. [1783]. Cyfr. m. anwar: a son who rescinds his father's legal bequest. 13g.*

m. anweddog: *bachelor. 1852.*

m. anwes: *pampered child. 1848.*

m. bach: *young child. 1672.*

m. bedydd: *godson, also fig. 14g.*

m. bron: *suckling child. 15g.*

m. bychan = **m. bach. 14g.**

m. caeth: *serf, slave, bondman. 16g. Beibl. meibion y gaethglud: the children of the captivity, the Jewish captives in Babylon. 1588.*

mab caru: *lover, suitor. 1776.*

m. cefn: *babe in arms. 14g.*

m. y golledigaeth = **m. y cyfrgoll. 1620.**

m. corfforol: *son begotten by his parents (as opposed to being adopted). 14g.*

y m. coronog: *a hero whose coming fulfils a prophecy or vaticination, son of prophecy, prophesied deliverer. 16-17g.*

m. y crinwas: *great miser. 15g.*

m. (y) cu: *beloved son; ?grandson. c. 1400.*

m. y cyfrgoll: *the son of perdition. 15g.*

m. cyn barf: *a boy before the onset of puberty. Diw. 18g.*

m. cynnwys: *adopted son. 1632.*

m. cyswyn = **m. ameuedig. Diw. 18g.**

(y) m. darogan = **y m. coronog. ?15g.**

m. dewis = m. cynnwys. 1632.
m. diafol: *son of Belial. 1722.*
m. dioddef: (i) *a son attributed legally to a man by the mother and not denied for a year and a day, permitted son, son by sufferance. 13g.* (ii) *condemned person. 1604-7.*
m. dioed: *an infant, minor. 1604-7.*
m. dolef, gw. *m. dyolef.*
m. drud = m. anwar.
M. Duw: *the Son of God, Jesus Christ. 13g.*
meibion Duw: *the sons of God. 1567.*
meibion (meib) y dwyrain: *the men or people of the (Middle) East. 1588.*
mab dymunedig (damunedig) = m. cynnwys. 14g.
m. (y) dyn, M. (y) Dyn (i) *man, human being, living soul. 13g.* (ii) *the Son of Man, title of Christ. 14g.* (iii) = **y m. coronog. 15g.** Cyfr. **m. dyolef (dolef, &c.):** *a child imputed to a certain man as father but not legally attributed. 13g.*
m. enaid dyn, m. enaid o ddyn = m. (y) dyn (i). 16g.
m. gast: *son of a bitch. 1762.*
m. (o) ordderch, m. gordderch: *bastard, illegitimate son. c. 1400.*
m. gweddw: *bachelor. 1874.*
m. y gŵr drwg: (*son of the*) *devil. Ar lafar.*
m. (y) gwyn: (i) *? beloved son. p. 1638.* (ii) *step-son. 1820.*
m. i gythraul = m. diafol. 14g.
meib(ion) (yr) Israel: *children of Israel, Jews. 14g.*
meibion llafur: *workers, sons of toil. 1861.*
mab llên *man of letters, scholar; cleric, clergyman. 14g.*
m. llwyn a pherth = m. (o) ordderch. 14g.
m. maeth: *foster son, foster child, also transf. and fig. 13g.*
M. Mair: *the Son of Mary, Jesus Christ. 9g.*
m. y fall = m. diafol. 1588.
m. mam: *mother's son, human being, living soul. 13g.*
m. ei fam: *mother's boy, pet; his mother's son, a true son of his mother. Ar lafar.*
m. y fam = m. (o) ordderch. 1805.
m. y mans: *son of the manse. Ar lafar.*
M. Mareia (Maria) = M. Mair. 14-15g.
M. Mari = M. Mair. 1819.
m. y felltith = m. diafol. 1568.
M. y Forwyn = M. Mair. 15g.
m. nai: *great-nephew. 1604-7.*
m. naturiol = m. corfforol. 1679.
M. o Aberth: *Jesus Christ (lit. son of sacrifice). 15g.*
m. o gariadferch = m. (o) ordderch. 1722.
m. o briod: *legitimate son. 1567.*
m. y bendro: *visionary (derog.). 1794.*
meibion y proffwydi: *prophets; disciples of the prophets. 1588.*
(y) Mab Rhad: *Jesus Christ. c. 1300.*
M. Rhiain = M. Mair. 15g.
m. symud: *changeling. 16g.*
m. tad: *father's son, human being, living soul. 1244.*
m. ei dad, m. i'w dad: *his father's son, a true son of his father; father's boy. 13g.*
mab (meibion) y daran: *the son(s) of thunder. 1567.*
m. y tŷ: *the son of (the man or master of) the house. 1722.* Cyfr. **m. uchelwr:** *gentleman or freeman who was a landed proprietor. 13g.*
m. yng nghyfraith, m. yn y gyfraith: *son-in-law; stepson. 15g.*
Am gŵyl y Fil Feibion, gŵyl Fil Feib, hen fab, gw. gŵyl¹, hen.
Gw. hefyd ab, am⁵, ap.

mabaeth *eb. sonship; childhood.*
1847.

mabaidd *a. filial; childish, boyish, puerile, childlike, innocent; belonging to childhood; young.*
14g.

maban *eg. ll. -od, -au.*

(a) *a babe, baby, infant, young child, infant boy, little boy, young son, also fig.*
13g.

(b) *a hero whose coming fulfils a prophecy or vaticination, son of prophecy, prophesied deliverer.*

13g.

Am *cloch maban*, *coronog f.*, gw. **cloch**, **coronog** (At.).

Gw. hefyd **baban**.

mabanaidd *a. babyish, infantile, childish, boyish, puerile, childlike; of or belonging to childhood or infancy; young.*

14–15g.

Gw. hefyd **babanaidd**, **mabanaidd**, **mebinaidd**.

mabandod *eg. infancy, babyhood, childhood; early period.*

1764.

Gw. hefyd **babandod**, **mebindod**.

mabaneiddrwydd *eg. childishness, boyishness.*

1770.

Gw. hefyd **babaneiddrwydd**.

mabaniaeth *eb.g. childhood.*

c. 1730.

Gw. hefyd **babaniaeth**.

mabaniaith *eb. baby-talk.*

1907.

mabanladdiad *eg. infanticide.*

1851.

Amr.: **mabanleiddiad**. 1834.

Gw. hefyd **babanladdiad**.

mabanoed *eg. infancy, boyhood, childhood, youth.*

1604–7.

mabdall, gw. **mabddall**.

mabdyn, gw. **mab—mab dyn**.

mabddall *eg. ll. (adran 1.) mabddeillion, (adran 2.) mabddeillod, mabddelli, a hefyd fel a.*

1. *(a person who is) born blind, (one that is) blind from birth.*

1567.

2. *blindworm, slow-worm; lizard; newt, eft.*

1722.

Gw. hefyd **madfall**.

mabddysg *eg. what is learnt as a child, early training, rudiments of learning, elementary education, first principles of any subject.*

12–13g.

mabedd *eg. childhood.*

1725.

mabenaidd, gw. **mab—mab enaid**.

mabferch *eb. hermaphrodite, a bisexual.*

1604–7.

mabfrethynnau *e.ll. swaddling-clothes.*

9–10g.

mabgainc, mabgar, &c., gw. *mapgainc, mapgar, &c.*

mabgarwch *eg. love of children.*
16-17g.

mabgymeriad *eg. adoption.*
1604-7.

mabgynhwysaf: mabgynnwys, mabgynhwyso *ba. to adopt.*
1604-7.

mabgynhwysiad *eg. adoption.*
1604-7.

mabgynnwys *eg. a hefyd fel a. adoption; adopted.*
1567.

Gw. hefyd **mab—mab cynnwys**.

mabiaeth *eg. a hefyd fel ba. childishness, silliness, frivolity, flattery, wantonness, indulgence, coddling, fondling; childhood; sonship; to nurture, spoil, indulge.*

1547.

Gw. hefyd **babiaeth, mabiaith**.

mabiaethaf: mabiaethu *ba. to treat as a child, nurse, fondle.*
1796.

mabiaith *eb.g. baby-talk, unintelligible words, prattle; fair words, flattery, wanton language, fondling, indulgence, vanity, jesting; spoken language, dialect; ?what is taught to a child.*

14g.

Am *mis* y **mabiaith**, gw. **mis**.

Gw. hefyd **mabiaeth**.

mabinaidd *a. childish, juvenile, youthful, boyish, babyish; pertaining to childhood or youth.*

c. 1300.

Gw. hefyd **mebinaidd**.

mabinog, mebinog, &c. *eg. ll. -ion, a hefyd fel a. apprentice (poet), (literary) pupil; that which pertains to a young man; youthful.*

18-19g.

Gw. hefyd **mabinogi**.

mabinogaidd, mebinogaidd *a. pertaining to or similar to the 'Mabinogion', or more spec. to the 'Four Branches of the Mabinogi'; heroic, pertaining to story-telling; pertaining to youth, young, youthful.*

18-19g.

mabinogi, &c. *eg. ac yn ddiw. eb. ll. (diw.) -on. childhood, youth; events or feats of youth, story of (someone's) youth, story, legend; (in pl.) the name given to a collection of medieval Welsh tales.*

12-13g.

Gw. hefyd **mabinog**.

mablan *eb. grave, tomb, burial place.*

c. 1300.

mablath, gw. **mabddall**.

mableiddiad *eg. filicide, one who kills his own child.*

1655.

Mabli—**ceisio bod yn Fabli cyn gallu bod yn Lleucu**, gw. **ceisiaf**: **ceisio** (At.).**mabliw** *eg. natural colour such as the colour of undyed wool or cloth; reflected colour.*
Dchr. 17g.**mablyfr** *eg. copy, transcript.*
1756.**mablygad** *eg. ll. -aid. pupil of the eye, eyeball, apple of the eye, also fig. cherished object or person.*
14g.**mabmaeth**, gw. **mab**—**mab maeth**.**mabod** *eg. infancy, childhood, boyhood, youth, adolescence, minority, also fig.*
1346.**mabol** *a. ll. -ion. filial, son-like; childlike, childish, boyish, young, adolescent; pertaining to youth or adolescence.*
c. 1250.**mabolaeth, mabiliaeth** *eb.g. infancy, childhood, adolescence, youth, minority, also fig.; events or feats of youth, story of (someone's) youth; sonship.*
c. 1250.**mabolaf: maboli** *bg. to behave like a boy or youth; become like a child or son.*
1604–7.**mabolaidd** *a. filial; boyish, youthful.*
1711.**maboldeb, mabolder** *eg. filiation, sonship; boyhood, childhood, youth.*
18–19g.**maboledd** *eg. sonship.*
1764.**mabolgamp** *eb. ll. -(i)au. feat, accomplishment, or art which young men were expected to master, one of the accomplishments which were part of the education of youths; (usually in pl.) games, sport(s), gymnastics, athletics, contests between athletes, &c.*
1604–7.**mabolgampa**, gw. **mabolgampio**.**mabolgampaidd** *a. athletic.*
20g.**mabolgampio, mabolgampa** *bg. to take part in sports, also fig.*
20g.**mabolgampol** *a. pertaining to athletics or sports; athletic.*
20g.**mabolgampus** *a. athletic, also fig.*
20g.**mabolgampwr** *eg. ll. -wyr. sportsman, gymnast, athlete.*
20g.**mabiliaeth**, gw. **mabolaeth**.

maboliaethaf: maboliaethu *ba.* to make (someone) a son, adopt.
1810.

mabon *eg. ll. -au.* boy, youth; lord.
14g.

Mabon—Llun M., gw. llun².

mabpais, gw. mapais.

mabryddaeth, mabryddiaeth *e?b.* a kind of rent or tax which used to be paid by all free tenants to the lord of the manor.
Dchr. 17g.

mabsant¹ *eg. ll. -sannau, -santau, -saint.* patron saint, the patron saint of a parish, guardian saint of a person, place, &c., canonized saint, holy man, also fig.; tutelary god; parish-wake, patronal festival.

?14g.

Amr.: **mabsanct.** (ll. -sainct).

Am *gŵyl mabsant*, gw. **gwylmabsant**.

mabsant² *eg. tang (of scythe), part of blade let into the handle.*
Ar lafar.

mabsanta *bg.a.* to celebrate the patronal festival of a parish, keep a wake, revel, carouse; (*dict.*) canonize.

Dchr. 17g.

Cf. **gwylmabsanna**.

mabsantwr *eg. ll. -wyr, meibsantwyr.* merry-maker in a parish-wake, reveller.
1850.

mabsgrif, gw. mabysgrif.

mabwaith *eg. trivial pursuit, child's play.*
13g.

mabwas, gw. mapgwas.

mabwr *eg. boy, male infant, son, youth, young man.*
1552.

mabwraig *eb.* young girl or woman.
c. 1300.

mabwriaeth *eb.* adoption; sonship.
1567.

mabwsiad, mabwsiaf: mabwsio, gw. **mabwysiad, mabwysiaf: mabwysio**.

mabwynion *e.ll.* White Friars, Carmelites.
1718.

mabwys *eg. adoption; sonship; (dict.) adopted child.*
1551.

Cfn.: **trwy (o) fabwys a rhad (gras):** by adoption and grace. 1567.

mabwysaeth, mabwysiaeth *e?b.* adoption.
1551.

mabwysaf: mabwyso, mabwysedig, gw. **mabwysiaf: mabwysio, mabwysiedig**.

mabwysiad *eg. ll. -au. adoption, affiliation; sonship; also fig.*

1567.

Amr.: mabwsiad. 1696.

mabwysiadaeth *eb. adoptionism.*

20g.

mabwysiadaf; mabwysiadu *ba. to adopt, take as one's own child; adopt (a practice, plan, idea, &c.), choose, cherish.*

1719.

mabwysiadai *eg. ll. mabwysiadeion. adoptee.*

1972.

mabwysiadol *a. adopted, adoptive, pertaining to adoption, chosen.*

1719.

mabwysiadwr *eg. ll. -wyr.*

(a) adopter.

1810.

(b) adoptionist.

1866.

mabwysiaeth, gw. mabwysaeth.

mabwysiaf, mabwysaf; mabwys(i)o *ba. to adopt, take as one's own child, choose as heir; adopt (a practice, plan, idea, &c.), choose, cherish, also fig.*

1604–7.

Amr.: mabwsio. 1703.

mabwysiedig, mabwysedig *a. a hefyd fel e. ll. -ion. adopted, adoptive; an adopted person.*

1758.

mabwysiol, mabwysol *a. adopted, adoptive, pertaining to adoption, characteristic of one who has been adopted; ?filial.*

16–17g.

mabwysiwyr, mabwyswr *eg. ll. mabwyswyr. adopter.*

1722.

mabwysol, mabwyswr, gw. mabwysiol, mabwysiwyr.

mab-yng-nghyfraith, gw. mab—m. yng nghyfraith.

mabyn, gw. mebyn.

mabys *e?g. courtesy, good manners, (good) behaviour.*

16g.

mabysgrif *eb. copy, transcript.*

1756.

mac¹ *eg. b. raincoat, mackintosh.*

20g.

Gw. hefyd macintos.

mac², gw. màg.

maca *eg. fosterling.*

18–19g.

macabr *a. macabre, gruesome.*
20g.

macadam *a. a hefyd fel eg. macadamized; (tar)macadam, tarmac.*
1858.

macadamaidd *a. macadamized, characterized by macadam or macadamized roads.*
20g.

macadameiddiaf: macadameiddio *ba. to macadamize.*
1848.

macadameiddiedig *a. macadamized.*
1833.

macadameiddiol *a. macadamized.*
1851.

macadelgi, gw. macydelgi.

macai *eg. (bach. maceiyn) ll. maceion, maceiod. maggot, grub, larva.*
1803.
Amr.: mwcai. 1758.
Gw. hefyd maceiad, magien.

macaid, gw. magien.

macal, ff. daf., gw. magl.

macamwn, gw. macymwn.

macamwndi, macymwndi *eg. 'Imago Mundi'; map of the world.*
15g.
Gw. hefyd mapamwndi, mwndi.

macaronaidd *a. macaronic.*
1885.

macaroni *eg. macaroni.*
20g.

macaronig *a. macaronic.*
20g.

macas, gw. bacas².

macáw *eg. macaw.*
1851.

Macedoniad *eg. ll. -iaid. a Macedonian.*
1567.

maceiad *eg. ll. maceiaid. maggot, grub, caterpillar.*
1803.
Gw. hefyd macai, magien.

maceiol *a. larval.*
1851.

maceiyn, gw. macai.

macerel, gw. macrell.

macffast *eg. part of suit of armour (?fastenings or couplings).*
15g.

maciad, gw. magien.

Maciafelaidd *a. Machiavellian, subtle, unscrupulous.*
1937.

Maciafeliaeth *eb. Machiavell(ian)ism.*
20g.

macintos, macintosh *eg. b. raincoat, mackintosh.*
1931.
Gw. hefyd mac.

macl *eg. mascle, (voided) lozenge.*
16g.

Macleanaidd *a. pertaining to the teachings of Archibald McLean, the Scotch Baptist minister; following such teachings.*
1807.

macnábs, gw. meinábs.

macraeth, macredd, macreth *e. malice, reproach, insult.*
14g.

macrel¹, gw. macrell.

macrel² *eg. (un. bach. -yn). partridge-breasted aloe.*
Ar lafar.

macrela *bg. to fish for mackerel.*
Ar lafar.

macrelyn, gw. macrell.

macrell *eb. g. (bach. -yn) ll. -iaid, -od, mecryll. mackerel; grayling (fish).*
c. 1400.
Amr.: macrel¹, macerel. (bach. g. -yn; ll. -s, mecryl). 1687.

macreth, gw. macraeth.

macrocosm *eg. macrocosm.*
20g.

macrocosmig *a. macrocosmic.*
20g.

macrosgopig, macrosgobig *a. macroscopic.*
20g.

macsad *eg. brewing; a brew.*
1797.

macsaf: macsu *bg. a. to brew, also fig. prepare, gather (of rain, storm, &c.), brew (of mischief, &c).*
17g.
Am cwrw macsu, gw. cwrw (At.).

macsimwm *eg. maximum.*
20g.

mactan *eg. b. ll. -au. tinder, kindling, fuel; match, tinderbox.*
16-17g.

macul, maculu, gw. **magl, maglaf: maglu.**

macwy¹, macwyf *eg. ll. macwyf(i)aid, macwyaidd. esquire, squire, page, youth, boy, (young) man, ?knight, ?lord; youth of the king's retinue; transf. of animal.*

13g.

Amr.: **magwy². 15g.**

Cfn.: **Y Macwy Dau Hanner:** name given to a deliverer in Welsh vaticinatory poetry. c. 1300.

macwy², gw. **bagwy.**

macwyaeth *eb. ll. -au. pupillage, discipleship.*
18-19g.

macwyaidd *a. youthful, puerile.*
15g.

macydelgi, macadelgi *e?g. the name of one of the twenty-four metres or measures of traditional Welsh string music.*
15-16g.

macymwn, macamwn, &c. *eg. ?b. element in the names of some of the twenty-four metres or measures of traditional Welsh string music.*

15-16g.

Amr.: **macymyn. 16g.**

macymwndi, gw. **macamwndi.**

macyn¹ *eg. ll. -on, -au. handkerchief.*
1897.

Amr.: **matgyn.** Ar lafar.

Cfn.: **macyn inji:** large handkerchief or neckerchief. 1904.

m. wrth gwt: name of a children's game. Ar lafar.

Gw. hefyd **napgyn.**

macyn² *eg. ll. -au. bacon.*
1806.

mach *eg. ll. meich(i)au, meichion, (ar ôl rhif.) meich. (enforcing or paying) surety, one who accepts responsibility for the fulfilment of a contract, guarantor for debt, the truth of a statement, &c.; sponsor (at baptism); hostage; also transf. and fig.*

13g.

Cfn.: **mach ar gyfraith:** surety for appearance in court. 13g.

m. bedydd: sponsor (at baptism), godparent. 1722.

m. cynnogn: (i) one who is regarded as both debtor and surety for the debt. 13g. (ii) (paying) surety, guarantor, also fig. 1765.

m. diebredig (diebrydig): surety who does not fulfil his role. 14g.

m. gorfodog = m. ar gyfraith. 14g.

m. talu: (paying) surety, guarantor. 14g.

ar feichiau: upon sureties, in exchange for sureties. 14g.

heb na mach na maenpris: without bail or mainprize. 1710.

Am Duzw'n fach, gw. **duw¹** (At.).

Gw. hefyd **meichiau².**

machdaith *eb. maid(servant), girl.*
13g.

machdeyrn, gw. **mechdeyrn.**

machiafaeth, gw. **meichiafaeth.**

Machiafelaidd, Machiafeliaeth, gw. Maciafelaidd, Maciafeliaeth.

machiniaeth *e?b. shape, form, framework.*
1615.

machlad, machladiad, machliad, gw. machludiad.

machludaf: machlud(o) *bg. a'r be. machlud fel eg. ll. -oedd. to set (of the sun, &c.), go down; occult, be obscured; fig. wane, come to an end, cease.*
158.

Fel e. setting, going down (of the sun, &c.), sunset, also fig.

1547.

Amr.: machludd. 1722.

machluta. 1547.

machlydu. 1711.

Cfn.: machlud haul: sunset. 1547.

Gw. hefyd **achludd, ymachluddaf: ymachludd.**

machludiad *eg. ll. -au. a going down, setting (of the sun, &c.), also fig.; occultation, an obscuring.*

1588.

Amr.: machlad, machliad. 1618.

machladiad. 1658.

Cfn.: machludiad, &c., (yr) haul: sunset. 1588.

machludol *a. setting (of the sun), pertaining to the setting of the sun, also fig.*
1803.

machluta, machlydaf: machlydu, gw. machludaf: machlud(o).

machnad, machnân, machni, gw. mechnïad, mechnân, mechni.

machnïad *eg. surety.*
1667.

machnïaeth, machnïaf: machnïo, machnïol, machnïwr, machnïydd, machnydd, gw. mechnïaeth, mechnïaf: mechnïo, mechnïol, mechnïwr, mechnïydd.

machogyn *eg. the gap between the meshes of a net.*
Ar lafar.

machudd, gw. muchudd.

machwy *eg. ll. -on. bay.*

1852.

Gw. hefyd **bachwy.**

machysgrifen *eb. written agreement, bond.*
1770.

mad¹ *a. a hefyd fel eg. ll. -ioedd.*

(a) fortunate, lucky, auspicious, happy; ?worthy, suitable, proper.

138.

(b) good, beneficial, virtuous, holy, fair, pleasant, beautiful.

c. 1300.

Fel e. good person; goodness, fairness, benefit, good deed, kindness; ?wealth, goods.

c. 1300.

mad², gw. **bad**¹ (hefyd At.)

Madagasgaeg *eb.* Malagasy (language).
1869.

Madagasiad *eg.* ll. *-iaid.* a Malagasy.
1844.

madain, gw. **madiain**.

madalch, gw. **madarch**.

madam *eb.* madam; a fashionable title given to a semi-professional singer at concerts, &c., who sometimes also teaches the rudiments of singing to private pupils; also derog. and facet.
1684.

madar, gw. **madr**¹.

madarch, **madalch**, &c. *e.ll.* ac *e.tf.* (un. b. *-en*, *?-an*) ll. dwbl *medyrch*, *madeirch*, *medeilch*, *madarchau*, *?mydylch*.

(a) various kinds of fungus (esp. edible ones), mushrooms, toadstools; cork, a cork; sponge.

14g.

(b) *fig.* in a derog. context.)

14g.

Amr.: **madrach**. (ll. *medrych*).

Cfn.: **madarch y derw**: agaric, tree fungus, *Polyporus*. 1770.

m. hudol: 'magic mushroom(s)', hallucinogenic mushroom(s). 20g.

Am y dderwen fadarch, pren m., gw. **derw** (At.), **pren**.

madarchaidd *a.* similar to, characteristic of, or pertaining to, mushrooms or toadstools, basidiomycetous, fungous, fungal, fungoid, spongy.

1773.

madarn, gw. **madr**¹.

Madawgwys, gw. **Madogwys**.

mad-deyrn, **mad-ddall**, gw. **mateyrn**, **madfall**.

madedd *eg.* goodness, generosity, bounteousness.
1773.

maden, gw. **madyn**.

mader, gw. **madr**¹.

madfall *eb.g.* ll. *-feill*, *-feillod*, *-fallod*. lizard, slow-worm, blindworm; newt, eft.
1707.

Amr.: **madlath**. *Ar lafar*.

madfath. 20g.

mad-ddall. 1803.

maglath. (ll. *magleithod*).

Cfn.: **madfall y coed**: lizard, *Lacerta vivipara*. 20g.

m. gribog: crested or warty newt, *Triturus cristatus*. 20g.

m. y dŵr: smooth or common newt, *Triturus vulgaris*. *Div.* 19g.

m. lefn = **m. y dŵr**. 20g.

m. balmwyddog: palmate newt, *Triturus helveticus*. 20g.

m. y tywod: sand lizard, *Lacerta agilis*. 20g.

Am llygad madfall, troed m., gw. **llygad**, **troed**.

Gw. hefyd mabddall.

madfallaidd *a. similar to, characteristic of, or pertaining to, lizards, lizard-like, saurian.*

1850.

madfallbysgodyn *eg. ichthyosaurus.*

1851.

madfallog *a. similar to, or pertaining to, lizards, lizard-like, saurian.*

1853.

madfath, gw. madfall.

madfelen¹ *eb. black knapweed, hardhead.*

1632.

madfelen², gw. bad¹—y fad felen (At.).

madferth, gw. mad + berth.

madfil *eg. ll. -od. dinosaur; lizard.*

1866.

madfyw *a. half alive, half dead, semiconscious, unconscious, also fig.*

18–19g.

Gw. hefyd adfyw, amadfyw, dadfyw, ymadfyw.

madgorn, gw. mapgorn.

madiain, madien *a., weithiau gyda grym enwol, a hefyd fel eg.*

(a) (*born*) *fortunate, happy, good.*

c. 1300.

(b) (*geir.*) (*dict.*) *honour; honoured.*

c. 1588.

Amr.: madian. 1773.

madain. 18–19g.

Madianiad, madien, gw. Midianiad, madiain.

madlog *eb. ll. -od. fiery serpent, prester.*

1858.

madog¹ *eg. ll. -od. fox, also fig.*

1510–40.

madog² *eg. a hefyd fel a. good man; good, just, righteous.*

Dchr. 17g.

Madogwys, Madogion, Madogiaid *e.ll. the mythical Welsh Indians who were believed to live in America and to be descended from Madog ab Owain Gwynedd and his followers.*

1791.

madol *a. fair, good, beneficial.*

17g.

mados, gw. madws.

madowydd, gw. madywydd.

madr¹ *eg. madder; birthwort.*

14g.

Amr.: **madar**. 18g.
madarn. c. 1740.
mader. 1828.

madr² *eg. pus, also fig.*

1547.

Gw. hefyd **madrodd**¹.

madrach, gw. **madarch**.

madraf, **madriaf**: **madru**, **madrio** *bg.a. to fester, suppurate, become septic, gather (of a wound); putrefy, rot, decompose; also fig.*

1547.

Gw. hefyd **madreddaf**: **madreddu**.

madraidd *a. festering, rotten, also fig.*

1803.

madrchwilen, gw. **modrychwilen**.

madredig *a.bfl. festered, putrefied, rotten, corrupt.*

1796.

madredd *eg. pus, gore, festering sore; putrefaction, decomposition, corruption, also fig.; gangrene; ?blood-poisoning, septicaemia.*

14–15g.

madreddaf: **madreddu** *bg.a. to fester, suppurate, become septic, gather (of a wound); rot, putrefy; also fig.*

1722.

Gw. hefyd **madraf**: **madru**.

madreddiad *eg. a festering, purulence, putrefaction.*

1780.

madreddog *a. full of pus, septic, festering, mattery, putrid, addled (of an egg); cancerous, gangrenous.*

1722.

madreddol *a. putrefactive, also fig.*

1803.

madriad *eg. a festering, purulence, putrefaction.*

1780.

madriaf: **madrio**, gw. **madraf**: **madru**.

madrigal *eb.g. ll. -au. madrigal.*

1911.

madrodd¹ *eb. mortuary, morgue, charnel-house; (spoil) heap.*

1803.

madrodd², **madroddus**, gw. **ymadrodd**, **ymadroddus**.

madroddog, gw. **madreddog**.

madron, **medron** *a., weithiau gyda grym enwol. dizzy, giddy, amazed, stupefied.*

1604–7.

madronaf, **medronaf**: **madroni**, **medroni** *bg.a. to make or become dizzy or giddy, become stupid, stupefy; ?fester, rot; also fig.*

16g.

madrondeb, mydrondeb *e?g. giddiness, dizziness, vertigo.*

1545.

madrondod, madryndod, medrondod, &c. *eg. giddiness, dizziness, vertigo, astonishment, stupefaction, stupor, sottishness, daftness, also fig.*

1545.

madronol *a. intoxicating; ?giddy, dizzy; putrefying.*

1843.

madrudd, gw. madruddyn.

madruddog, mydruddog *a.*

(a) *gristly, cartilaginous; marrowy, medullary.*

1722.

(b) *grisly.*

1785.

madruddol *a. marrowy, medullary; gristly, cartilaginous.*

1803.

madruddyn, modruddyn, mydruddyn, &c. *eg. ll. -nau.*

(a) *cartilage, gristle, tendon, spinal cord; marrow; pith, core, heart; also fig.*

c. 1400.

(b) *kidneys.*

1545.

Amr.: **madrudd, mydrudd.** (ll. -au, -(i)on).

merdruddyn, ?merddruddyn. c. 1400.

meindruddyn. *Dchr.* 17g.

Cfn.: **madruddyn (modruddyn, &c.) (y) cefn, m. asgwrn y cefn:** *spinal cord, spinal marrow.* 1545.

m. (llydan) y glust: *pinna, broad upper part of external ear.* 1604-7.

m. y (ddwy)ffroen: *nasal cartilage.* 1816.

m. pren: *heart (of tree).* 1774.

m. trwyn, m. ei drwyn (ei thrwyn, &c.) = m. y ffroen. [1762].

madruddynnog *a. made of gristle, full of gristle, gristly, cartilaginous.*

1604-7.

madrwy, medrwy, &c. *eb. (bach. -en) ll. -od. lizard; newt.*

c. 1585.

Amr.: **modrwyan, modrwyen¹.** 1773.

Cfn.: **madrwy felen** *lizard, newt.* 1801.

Gw. hefyd **modrwyfil, modrychwilen.**

madrwyen, madrwyfil, madryn, madryndod, gw. madrwy, modrwyfil, madyn, madrondod.

madryw, gw. mad¹ + rhyw.

madsych, gw. matsych.

madwaith *eg. good work, goodness.*

c. 1400.

Gthg. **anfadwaith.**

madwaledd, madwaredd, gw. mydwaledd.

madwr *eg. benefactor, patron.*

1764.

madws¹ *eg. a hefyd fel a. time, high time, right moment or time, suitable, opportune, or advantageous time, opportunity; timely, convenient.*

14g.

Amr.: **mados. 1716–18.**

madwys. 1547.

ymadws. c. 1400.

madws² *eg. mental home or hospital, asylum, madhouse.*

1908.

madws³ *e. fox, fig.*

c. 1400.

madwydd, madwys, gw. madywydd, madws¹.

madwysg *eg. b. columbine.*

1801.

madyn *eg. ? b. (b. maden).*

(a) *fox, reynard.*

14g.

(b) *fig.*

c. 1400.

Amr.: **madryn. 1707.**

madywydd *e. ll. neu eg. bog myrtle, sweet gale.*

Dchr. 17g.

Amr.: **mordywydd. 1707.**

Gw. hefyd myrtwydd.

maddeg *eg. ll. -au. a running bow or knot.*

1722.

Gw. hefyd byddag.

maddeuad *eg. ll. -au.*

(a) *a setting free, dismissing, remission (of debt, punishment, sin, &c.), forgiving or pardoning.*

1778.

(b) *(papal, &c.) indulgence.*

1710.

maddeuadwy *a. forgivable, pardonable, venial, excusable.*

1719.

maddeuaf: maddau *bg. a. a'r be. fel eg. ll. -on.*

(a) *to let go, dismiss, forsake, leave, abandon, dispense with, part with, get rid of, divorce, set free; afford, spare (time for some purpose, &c.), forfeit, give up, be or do without, abstain from, cease, omit, lose, withhold, leave unpaid.*

13g.

(b) *to forgive (sin, offence, debt, person, &c.), remit, let off, pardon, absolve, excuse, overlook.*

13g.

Fel e. forgiveness, pardon, remission; (papal, &c.) indulgence; a setting free, dismissal; omission, a dispensing with.

14g.

Amr.: **maddeuo. 1617.**

Am *diwyn faddau*, gw. **diwyn**².

Cfn.: **myned maddau** *to be in vain, be lost, be forfeit.* c. 1300.

Gw. hefyd **difaddau**, **eneidfaddau**, **pendifaddau**.

maddeuant, **maddeuaint** *eg. ll. -annau, -antau.*

(a) *forgiveness, pardon, remission (of debt, punishment for crime, &c.); (eccl.) absolution.*

13g.

(b) *(papal, &c.) indulgence.*

1618.

(c) *a leaving or departing, departure, parting.*

c. 1400.

maddeuantlythyr *eg. ll. -au. (certificate of) (papal, &c.) indulgence.*

1807.

maddeueb *eb. ll. -au, -ion. (papal, &c.) indulgence, pardon.*

1850.

maddeuedig *a. bfl. forgiven, absolved, pardoned.*

13g.

maddeugar *a.*

(a) *forgiving, ready to forgive, pardoning much.*

1551.

(b) *forgivable, pardonable.*

1768.

maddeugarwch *eg. forgiveness, willingness to forgive.*

1712.

maddeulen *eb. ll. -nau, -ion. (certificate of) (papal, &c.) indulgence.*

20g.

maddeuog *a. forgiving, ready to pardon.*

1567.

maddeuol *a. venial, pardonable; forgiven, pardoned; forgiving, ready to pardon.*

Dchr. 15g.

Am *pechod maddeuol*, gw. **pechod**.

maddeuwr, **maddeuydd** *eg. ll. -wyr, -yddion. one who forgives or pardons; one who sets free, forsakes, or dismisses.*

c. 1400.

maddeuydd, gw. **maddeuwr**.

mae¹ *gn. gof. where (is, are, &c.)?, what is (are)?*

13g.

Cfn.: **mae fel (fal)**, **mae'l**, **ma'l**: *how, in what (possible) way, also used to introduce a request or command.* 1703.

mae², 3 un. pres. myn. y f. *wyf: bod.*

mae³ *cys.*, gw. **mai**¹.

maeden *eb. ll. -od. jade, ill-tempered woman, cunning shrew, slut, slattern, hussy; ?maid, girl; also fig. and transf.*

16g.

Amr.: **baeden**. Ar lafar.

maedens *e.?* ll. *wild mustard, charlock, runch.*

16–17g.

Gw. hefyd **mathes**.

maedd *eg.b.* ll. *-au. a beating, striking, blow; defeat.*

Dchr. 17g.

maeddad, gw. **maeddiad**.

maeddaf: maeddu *bg.a.*

(*a*) *to beat, strike, smite, pound, crush, knead, mix; punish, plague.*

13g.

(*b*) *to defeat, foil, vanquish.*

14–15g.

(*c*) *to soil, pollute, mess, spoil.*

1842.

Cfn.: **maeddu bara**: *to knead dough.* Ar lafar.

m. bols: *to make balls of culm and clay.* Ar lafar.

m. cwl(w)m = **m. bols**. Ar lafar.

m. ei ddwyfron (ei dwyfron, &c.): *to beat one's breast (as a sign of sorrow).* 13g.

m. ewyn: *to foam (at the mouth).* 16g.

m. mortar: *to mix mortar.* Ar lafar.

m. poer: *to foam (at the mouth), also fig.* 16g.

m. toes = **m. bara**. Ar lafar.

m.'n dwll: *to defeat completely, trounce.* Ar lafar.

Gw. hefyd **baeddaf: baeddu**.

maeddedig *a.bfl.* *pounded, crushed, mixed.*

1801.

maeddedigaeth *eg. a striking, beating, blow; defeat.*

1803.

maeddgen, gw. **maethgen**.

maeddiad, maeddad *eg. a striking, beating, blow; defeat.*

16g.

Gw. hefyd **baeddiad**.

maeddol *a.* *hefyd fel eg. buffeting, beating; mess.*

1803.

maeddwr *eg. ll. -wyr. striker, smiter, beater; defeater, subduer, conqueror; ?one who soils or mars.*

16–17g.

Gw. hefyd **baeddwr**.

maestawd, gw. **maestawd**.

mael¹ *eb.g. ll. -ion. profit, gain, lucre, benefit, advantage, reward, interest, usury.*

c. 1400.

Cfn.: **er mael (er ei f., &c.)**: *for the benefit of.* 16–17g.

mael² *eg. prince, chieftain, lord.*

14g.

mael³, **maels**², **maelys** *eg.b. ac e.tf. mail, coat of mail, armour, coat of armour; also fig. and transf.; (dict.) steel, iron.*

14g.

Am *crys mael*, gw. **crys**.

Gw. hefyd malen¹.

mael⁴, **mail**³, **meil**, **mêl**² *eg. mail, post; mail-train.*
20g.

mael⁵, gw. mail¹.

mael⁶, gw. moel¹.

mael⁷ *eg. servant, slave.*
1707.

mae'l, gw. mae¹—mae fel.

maelad, gw. marlat.

maelaf¹: **maela**, gw. maeliaf: maelio.

maelaf², gw. ymafaelaf: ymafael.

maelan *e?g. shop.*
1850.

maelawr, gw. maelor.

maeldal *eg. brokerage.*
1830.

maelder *eg. profit, benefit.*
17g.

maeldref *eb. market town.*
1803.

maeldy *eg. ll. maeldai. shop; ?treasure house.*
16g.

maeler¹, **maelier**² *eb. ll. maelierion. benefit, profit, reward; (pl.) goods sold for profit.*
1603.

maeler², gw. maelier¹.

maeleraeth, gw. maeleriaeth.

maeleraf, **maelieraaf**: **maelera**, **maeleru**, **maeliera** *bg.a. to trade (in), traffic (in), hawk, buy and sell, peddle.*
1776.

maeleraidd *a. like a huckster or merchant.*
15g.

maeleres, gw. maelier¹.

maeleraeth, **mael(i)eraeth**, **maelieraeth** *eb. commerce, trade, bargain, bargaining, bartering; merchandise, wares; also fig.*
15g.

maeleraethol *a. commercial.*
1814.

maeleriwr, **maelerlong**, gw. maelerwr, maelierlong.

maelerwr, **maeleriwr**, **maelierwr** *eg. ll. -wyr. merchant, dealer, trader,*

shopkeeper, huckster.

Dchr. 17g.

Gw. hefyd **maeliwr**.

maeles, maelis², gw. **smalaets**.

maelfa¹ *eb.g. ll. -oedd, -on, -fâu, -feydd. shop, market, market-place, mart, bazaar, business premises, also transf. and fig.*

1803.

maelfa² *e?g. edge, precipice; confines of house or land.*

Ar lafar.

maelfaol *a. commercial.*

1848.

maelfawr¹ *a. costly.*

16-17g.

maelfawr², maelfäydd *eg. shopkeeper.*

1848.

maelford *eb. counter (in a shop, office, &c.).*

1900.

maelfwrdd *eg. counter (in a shop, office, &c.).*

1852.

maelged *eb. ll. -ion. (annual) tribute.*

1723.

maelgi *eg. ll. maelgwn. name of various kinds of shark or dogfish, esp. monk-fish, angel-fish, angel shark.*

1604-7.

Maelgyning *e.tf. neu e.ll. sons or descendants of Maelgwn.*

c. 1300.

maeliad *eg. donor, patron.*

16g.

maeliaeth *eb. trade, commerce.*

1843.

maeliaf, maelaf¹: maelio, maela *bg.a. to gain, profit, make a profit, trade (in), market; avail, be of use or benefit.*

1547.

Amr.: maelu. 1916.

Gw. hefyd **afaeliaf: afaelio**.

maelie¹, maeler² *eg. (un. b. -es) ll. maelieron. merchant, dealer, trader, middleman, pedlar.*

14g.

maelie², maelieraeth, maelieraf: maeliera, gw. **maeler¹, maelieraeth, maeleraf: maelera**.

maeliereg¹ *?a. hired, mercenary, bought.*

14g.

maeliereg² *eb. merchandise.*

Dchr. 17g.

maelieres, gw. **maelier**¹.

maelierfa *eb. ll. -on. shop, market-place, also fig.*
1803.

maelieraeth, gw. **maeleraeth**.

maelierlong, **maelerlong** *eb. ll. -au. merchant ship.*
1814.

maelierwr, gw. **maelerwr**.

maelierydd¹ *eg. ll. -ion. shopkeeper, trader.*
1803.

maelierydd², gw. **meilierydd**.

maelis^{1,2}, gw. **mael**³, **smalaets**.

maeliwr, **maelwr** *eg. ll. maelwyr, maeliwrs. merchant, trader, shopkeeper, middleman, ?pedlar; profiteer, speculator.*
c. 1400.

maeloenog, gw. **molwynog**.

Maeloging *e.tf. neu e.ll. descendants of Maelog.*
c. 1300.

maelor, **maelawr** *eb. ll. maelorau. market; land, country, plain.*
1803.

maels^{1,2}, gw. **mael**^{1,3}.

maelstrom *eg. maelstrom, whirlpool, also fig.*
20g.

maelus, gw. **mael**³.

maelwag *a. ll. maelweigion. profitless.*
1766.

maelwas *eg. ll. -weision. shop assistant.*
1858.

maelwr, gw. **maeliwr**.

maelwriaeth *eb. trade, commerce.*
1850.

maelwynog, gw. **molwynog**.

maelydd¹ *eg. ll. -ion. merchant, shopkeeper, pedler.*
18-19g.

maelydd², gw. **ymafaelydd**.

maelyn *eg. shop assistant.*
1850.

maelys, gw. **mael**³.

maen¹ *eg. ?b. (bach. b. -an) ll. main, meini, (prin) maenau, a hefyd fel a.*

(a) *stone, esp. one having some speciality or a particular use (e.g. heavy stone used in athletic sports, grindstone, millstone); bakestone, girdle, griddle; block or bar (e.g. of salt); large stone as used, e.g., in building, rock; the stones of the grave; (occasionally) stone or graven image which is an object of worship, idol; symbol of fixedness, firmness, authority, power, &c.:*

12g.

(b) *precious stone, gem, jewel, pearl, sometimes fig.; loadstone, magnet.*

14g.

(c) (*med.*) *stone, calculus.*

18g.

(d) *stone (measure of weight).*

1722.

(e) *fig. and in fig. context.)*

c. 1380.

Fel *a. neu gyda grym ansoddeiriol. (made) of stone; fig. hard (of heart), unfeeling.*

12g.

Cfn.: **maen a bar:** *stone and bar for putting or lifting (in sport). 15–16g.*

m. (main) a chalch: (*made of*) *concrete (lit. stone and lime). 13g.*

m. adamant: *adamant. 1604–7.*

m. addurn: *tombstone. 1887.*

m. aelwyd: *hearthstone. 16g.*

m. agat (agath): *agate. 1604–7.*

m. alcan: *calamine. 1798.*

m. Alecsander Mawr = ?m. cudd. 15g.

m. alm, m. alem (alym, elyf): *rock alum. Div. 16g.*

m. allor: *altar stone. 15g.*

m. ar wydr, gw. m. dros iaen (i).

m. arch = m. llog.

m. armerth = m. llog. 18–19g.

m. bara: *bakestone, girdle, griddle. 1770.*

m. barbal, gw. m. marbl.

m. bedydd: *baptismal font. 15g.*

m. bedd: *gravestone, tombstone. 15–16g.*

m. beirdd = ?m. cudd. 1678.

m. bendigaid: *blessed stone (said of sapphire and selenite). 1561–2.*

m. beryl (beril): *beryl. 15g.*

m. blif: *stone for hurling from a catapult, bullet, ball, cannon-ball, also fig.; battering-ram. 14g.*

m. breuan: *quern-stone. 14g.*

m. breuanllif = m. llifo. 1547.

m. calch: *limestone. 15g. Meddyg. m. caled = m. tostedd. c. 1400.*

m. callestr: *flint. 1551.*

m. camp: *stone for putting or lifting (in sport). 1884.*

m. carbwnclus (carbonc(u)lus, caarbonclus): *carbuncle (stone). 14g.*

m. cawod (cawad): *precious stone believed to fall with showers; ball of lightning, thunderbolt; crystal supposed to bring rain; also transf. 15g.*

m. cellt = m. callestr. 1794.

m. cenllysg: *hailstone. 13g.*

m. clais = m. mynor. 15g.

m. clawr: *table-stone, cap-stone (of cromlech, &c.). 1858.*

m. clo: *keystone, fig. central element, principle, or figure; coping-stone, fig. cope-stone, crown, finishing touch. 1754.*

m. cof: *memorial stone, monument. 1815.*

m. coffa = m. cof. 1834.

m. coffadwriaeth = m. cof. 1588.

m. congl: *corner-stone. a. 1587.*

m. cop(in): *coping-stone. 1890.*

m. cornel: *corner-stone, also fig. 15g.*

m. corryn = ?m. neidr. 16–17g.

main cowri: *prehistoric stone circle, transf. 15g.*

maen crair: (i) *relic stone. 15g. (ii) = m. gwyn. 18–19g. (iii) = m. llog. 1884.*

m. crisial (crisialt): (*rock-*)*crystal. c. 1400.*

m. crisiant (crisant) = m. crisial. 14g.

- m. cristal** = **m. crisial**. **1346.**
m. cudd: *philosophers' stone*. *a.* **1644.**
m. cwrel: *coral*, also *fig.* **15g.**
m. chwŷf: *rocking-stone, logan-stone; central stone in the bardic Gorsedd circle*. **1814.**
m. deiol: *compass*. **16–17g.**
m. diemwnt (daimawnt, deimwnd, &c.): *diamond*, also *fig. c.* **1400.** *Drg. m. dyfod, m. dod:*
(geol.) erratic block. **20g.**
m. ehed: *loadstone, magnet*. **1632.**
m. elyf, *gw. m. alm.*
m. eurbraw: *touchstone*. **1604–7.**
m. ffin: *boundary stone*, also *fig.* **14g.**
m. geni, *gw. man²—man geni.*
m. geri: *gallstone*. **20g.**
m. glain: *adder-bead, adder-stone*, also *fig.* **15g.**
m. glaw (gwlaw): *precious stone believed to fall with rain; stone or crystal supposed to bring rain.*
15g.
m. gobraith: *large stone believed to mark a way*. **1796.**
m. gorchest: *stone for putting or lifting (in sport)*, also *fig.* **1782.**
m. gorsedd = **m. llog**. **1792.**
m. grisial: *(rock-)crystal, porphyry, red marble*, also *fig.* **15g.**
m. grisiant: **15g. a.** **1814.**
m. grwndwal: *foundation-stone, fig.* **15g.**
m. gwaddan = **m. grwndwal**. **1657.**
m. gwaith: (i) *carved stone*. **16g.** (ii) *stone used in building*. **1768.**
m. gwal: *stone used in building a wall, fig.* **15–16g.**
m. gwefr: *amber bead*. **15g.**
m. gwennol: *swallow-stone, stone believed to be carried from the sea-shore by swallows to give sight to their young*. **15g.**
m. gwerthfawr (gwyrthfawr, gwerthfor): *precious stone, gem*, also *fig. and transf.* **1346.**
m. gwn: *cannon-ball, bullet*, also *fig.* **15g.**
m. gwyn (gorsedd): *one of the stones forming the circle in the bardic Gorsedd*. **18–19g.**
m. gŵyr = ? **m. hir**. **1695.**
m. gwyrth (gwrthiau): *virtuous stone, precious stone, gem*, also *fig.* **15g.**
m. gwyrthfawr, *gw. m. gwerthfawr.*
m. haearn (harn) = **m. hogi**.
m. had, *gw. maenhad.*
m. hir *long-stone, standing stone, monolith, menhir*. **1695.**
m. hogi: *whetstone, hone, grindstone*. **1543.**
m. iacinct: *jacinct, hyacinth (gem), black marble*. **1722.**
m. iasbar = **m. iasbis**. **1567.**
m. iasbis: *jasper*. **1551.**
m. inc: *ink-stone*. **1858.**
m. llif = **m. llifo**. **1774.**
m. llifianu (llifanu, llyfanu) = **m. llifo**. **1774.**
m. llifo (llifio): *grindstone. c.* **1485.**
m. llin: *asbestos*. **1816.**
m. llithiant: *a kind of stone which, powdered and mixed with milk, was considered an antidote for hydrophobia or rabies*. **1822.**
m. llog *central stone in the bardic Gorsedd, 'logan-stone'*. **1792.**
m. (y) llongwyr = **m. ehed**. **1604–7.**
m. llwyth: *heavy stone used for putting in athletic contest (lit. load stone)*. **15g.**
m. llyfnhau = **m. llifo**. **1814.**
m. llythyrog: *inscribed stone*. **1695.**
m. magl: *adder-bead, adder-stone, popularly believed to be a substance blown by snakes and worn as a cure for cataract (lit. cataract stone)*. **1695.**
m. mân: *mica*. **1604–7.**
m. marbl (marbwl, barbal, &c.) = **m. mynor**. **1545.**
m. margarit: *pearl*. **15g.**
m. marmor = **m. mynor. c.** **1300.**
m. mawr = **m. camp**. **15g.**
m. melin: *millstone, fig. encumbrance*. **14g.**
m. mell(en): *thunderbolt, meteorite*. **1604–7.**
m. mererid (myrerid): (i) *pearl*, also *fig. Dchr.* **14g.** (ii) *murra (precious stone)*. **1604–7.**
m. mortar: *mortar quern*. **1896.**
m. muchudd: (i) *jet*, also *fig. c.* **1400.** (ii) = **m. agat**. **1604–7.**
m. mynor: *marble. c.* **1400.**
m. nadd: *heavn stone. c.* **1400.**

- m. neidr:** *adder-bead, adder-stone, worn as an amulet, fig. 15–16g.*
m. nodwydd = ?**m. ehed. 16g.**
m. onics (onycs): *onyx. 1588.*
m. pennaf: *chief stone, head stone. 1588.*
m. pobi: *bakestone. 1818.*
m. praw(f): *touchstone; stone for putting or lifting (in sport); fig. criterion, standard, canon, test. 1588.*
m. profi = **m. profiad. 1725.**
m. profiad: *touchstone, fig. criterion, standard, canon, test. 1713.*
m. rubi: *ruby, also fig. 15g.*
m. rhigal (rigal): *regal, precious stone, also fig. 15–16g.*
m. rhugl, gw. *m. rhigal.*
m. rhwystr = **m. tramgwydd.**
m. saffir (saffyr): *sapphire, also fig. 15g.*
m. sarn: *stepping-stone. 1605–18.*
m. sebon: *soapstone, stentite. 1852.*
m. sgrifen, gw. *m. ysgrifen.*
m. sidan: *asbestos (lit. silk stone, because of the silky fibrous texture of asbestos). 1856.*
m. sigl = **m. chwÿf. 1695.**
m. sugn = **m. ehed. 14g.**
m. tâl: ?*precious stone; (dict.) magnet. 15g.*
m. tân: *pyrites, marcasite. 1604–7.*
m. taran (y daran) = **m. mellt. 1604–7.**
m. taro tân: *flint in the firelock of a gun. 16–17g.*
m. teils: *tile. Dŵ. 16g.*
m. terfyn: *boundary stone. 13g.*
m. y Tiboeth: *black precious stone, said by Thomas Wiliems to have been lying upon St. Beuno's Book, known as '(y) Tiboeth', in the church at Clynnog Fawr. 14g.*
m. Tomas = ?**m. cudd. 15g.** **Meddyg. m. (y) tostedd:** *(med.) stone, calculus. c. 1400.*
m. (y) tramgwydd (trancwydd): *stumbling-block. 1567.*
m. troi = **m. hogi.** *Ar lafar.*
m. troell: *grindstone worked by foot. Ar lafar.*
m. dros (tros) iaen, m. dros iâ: (i) *stone over ice, also fig. of a lord. 13g.* (ii) *(dict.) rich, wealthy. 1604–7.*
m. dros faen *rich, wealthy. 1615.*
m. trwm: *heavy stone, esp. one for putting (in sport), also fig. 15g.*
m. twrcas: *turquoise. 15–16g.*
m. tyn = **m. ehed. 1723.**
m. tynfa = **m. tynnu. 1864.**
m. tynnu: *loadstone, magnet, also fig. 1632.*
m. ysgrifen, m. sgrifen: *inscribed stone. 1707.*
m. ysgwyd: *rocking-stone, logan-stone. 1761.*
cario'r (cael y, dwyn y, gyrru'r, mynd â'r, mynnu'r) m. i'r wal: *to achieve a goal, carry out a project, succeed, prevail, carry one's point. 16–17g.*

Am amerodron mein, bara maen, bwa m., bwrw m., carreg f., clefyd (y) m., clwyf y m., dal trwyn ar y m., mur m. (main), picau ar y m., saer m., taflu m. (a throsol), teisen ar y m., tostedd m., gw. amherawdr, bara¹ (At.), bwa¹, bwriaf: bwrw, carreg (At.), clefyd, clwyf, daliaf: dal, mur, pic, saer, taflaf: taflu, teisen, tostedd.

Gw. hefyd **faen, maenen.**

maen², gw. **mân¹.**

maen³ *eg.*

(a) *main (in a game of hazard).*
16–17g.

(b) *cockfight, main.*
1823.

Cfn.: maen Cymreig: Welsh main, kind of knock-out cockfighting contest. 1823.

Maen—gwin Maen, gw. **gwin.**

maenad, gw. **maeniad.**

maenadeiladaeth, maenadeiladwaith, maenaddoliad, gw. **maen**¹+
adeiladaeth, adeiladwaith, addoliad.

maenaf: maenu *bg.a. to stone, pelt with stones; turn to stone, petrify, also fig.*
1567.

maenaidd *a. stony, like stone; full of stones.*
1803.

maenan¹ *eg. lizard.*
1604–7.

maenan², gw. **maen**¹.

maenarch *eb. ll. maeneirch. stone coffin, sarcophagus; cistvaen, cromlech.*
1850.

maenargraff *eg. ll. -ion. lithograph; stone inscription.*
1823.

Gw. hefyd **argraff-faen**.

maenargraffaf: maenargraffu *ba. a'r be. fel eg. to lithograph; lithography.*
1850.

maenargraffiad *eg. ll. -au. lithography.*
1850.

maenargraffol *a. lithographic.*
1850.

maenargraffydd *eg. ll. -ion. lithographer.*
1850.

maenbrawf, maen-brawf *eg. ll. -brofion. criterion, standard, yardstick, touchstone.*
1725–6.

Gw. hefyd **maen**¹—**maen prawf, maenprawf**.

maenbyg *eg. stone-pitch, hard pitch.*
1722.

Gthg. **pygfaen**.

maenclo, maencof, gw. **maen**¹—**maen clo, m. cof**.

maendo *eg.?b. a hefyd fel a. (under a) stone covering, (in a) grave; slate roof; slate, tile.*
c. 1400.

maendöwr, maendoewr *eg. ll. maendo(e)wyr. slater, tiler (of roofs).*
1604–7.

Amr.: **meindöwr**. 1794.

maendref, gw. **maen**¹+**tref**.

maendrwch *eg. lithotomy.*
1776.

maendrychiad *eg. lithotomy.*
1776.

maendrychwyr, maendrychydd *eg. ll. -wyr. lithotomist.*
1776.

maendwr *eg. a hefyd fel a. (having a) stone tower.*

14g.

maendy *eg. ll. -dai. stone house or building; ?house of a religious order; ?prison; also fig.*

12g.

maenddewiniaeth *eb. lithomancy.*

1858.

maenedig *a.bfl. petrified, fossilized.*

1855.

maeneiddiad *eg. petrification, lapidification, fossilization; fossil; also fig.*

1803.

maeneiddiaf: maeneiddio *bg.a. to petrify, fossilize.*

1803.

maeneiddiol *a. petrifactive, lapidescent, fossilizing.*

1803.

maenen *eb. ll. -ni.*

(a) *heavy clayey soil.*

1814.

(b) *rock on a river bed.*

Ar lafar.

maenfan *eb. ll. -nau. bezel.*

1770.

maenfedd *eg. ll. -au, -i. grave of stone, sepulchre, tomb, (stone) burial vault; sepulchral monument.*

c. 1300.

Gw. hefyd *beddfaen*.

maenfur, maenfwa, gw. **maen**¹ + **mur**, **bwa**¹.

maengabolwr *eg. ll. -wyr. lapidary.*

1852.

maengaer *eb. stone fortress, also fig.*

13g.

maengerfiwr, gw. **maen**¹ + **cerfiwr**.

maengist *eb. ll. -iau. stone coffin, sarcophagus.*

c. 1400.

Gw. hefyd *cistfaen*.

maenglawdd *eg. ll. maengloddiau. (stone) quarry, also fig.; stone wall, heap of stones.*

1632.

maengloddfa *eb.g. quarry.*

1800.

maengolofn *eb. ll. -au. monolith, standing stone, menhir, stone column.*

1823.

maengrair *eg. stone relic or treasure, transf.; ?stone fortification*

16g.

Cf. **maen**¹—**maen crair**.

maengudd *eg. state of concealment by stone, burial.*

Dchr. 14g.

maengylch *eg. ll. -gylchoedd, maingylchoedd. stone circle.*

1842.

maenhad *e.tf. gromzwell; saxifrage.*

1604–7.

Cfn.: **maenhad yr âr:** *corn gromzwell, bastard alkanet, Lithospermum arvense.* 1813.

m. meddygol: *common gromzwell, Lithospermum officinale.* 1813.

maen-hir, gw. **maen**¹—**maen hir**.

maeniad, maenad *eg. ll. -au. petrification, fossilization; fossil; a stoning.*

1803.

Amr.: **meiniad.** 1803.

maenlestr, gw. **maen**¹+**llestr**¹.

